8.	Ychwanegwch y persli wedi'i dorri a'i droi i'w gyfuno cyn ei weini.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda reis gwyn neu frown

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g gyda 30-40g o reis wedi'i goginio a thua 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y stroganoff neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda phys 'sugar snap' fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwech neu briwiwch y stroganoff wedi'i goginio gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda phys 'sugar snap' fel bwyd bys a bawd.

Cyri cig eidion ac ysbigoglys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Cynnwys mwstard*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 40 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: The Nursery Catering Company

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Tomatos ffres	40g	160g
Cig eidion wedi'i ddeisio	335g	1.3kg
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Stwnsh tomato	20g (1 llwy fwrdd)	80g (4 llwy fwrdd)
Tyrmerig mâl	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Powdwr tsili	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Powdwr cyri	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Dŵr tap	165ml	660ml
Ysbigoglys ffres	80g	320g

Dull	
1.	Torrwch y winwnsyn a'r tomatos.
2.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y cig eidion wedi'i ddeisio. Coginiwch nes bydd wedi brownio.
3.	Ychwanegwch y winwnsyn a'r tomatos a choginiwch am 5 munud.
4.	Ychwanegwch y stwnsh tomato, tyrmerig, powdwr tsili, powdwr cyri a dŵr. Dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am 30 munud hyd nes bydd y cig eidion wedi coginio drwodd ac yn feddal.
5.	Ychwanegwch yr ysbigoglys a'i goginio am 3-4 munud arall.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda reis gwyn neu frown
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogrn arferol: tua 60g o gyri gyda 30-40g o reis wedi'i goginio a thua 25g o lysiau.
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyri wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cyri wedi'i goginio gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.

Lasagne cig eidion

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 210g
Amser paratoi: 50 munud
Amser coginio: 45 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: The Peterborough Nursery School and Children's Food Trust Autumn/Winter menu and recipes for early years settings

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Briwgig cig eidion braster isel	250g	1kg
Oregano wedi'i sychu	0.5 g (½ llwy de)	2g (2 lwy de)
Stwnsh tomato	30g (2 lwy fwrdd)	120g (8 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Dŵr	200ml	800ml
Sbred olew llysiau	20g	80g
Blawd plaen	20g	80g
Llaeth hanner sgim	200ml	800ml
Dalenni lasagne	90g (5-6 dalen)	350g (21-22 dalen)
Caws Cheddar	30g	120g

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 180°C/350°F/marc nwy 4.
2.	Torrwch y winwns a'r garlleg.
3.	Rhowch badell fawr ar wres canolig, ychwanegwch y briwgig a'i goginio nes bydd wedi brownio. Ychwanegwch y winwnsyn, garlleg, oregano a stwnsh tomato a choginiwch am 5 munud nes bydd y winwnsyn wedi meddal.
4.	Ychwanegwch y tomatos tun a'r dŵr a gadewch iddo fudferwi am 20 munud.
5.	Paratowch saws gwyn roux: mewn padell arall, toddwch y sbred olew llysiau ar wres isel. Pan fydd wedi toddi, ychwanegwch y blawd gan ei droi a choginiwch ar wres isel am 1–2 funud. Yn raddol, ychwanegwch y llaeth fymryn ar y tro gan ei droi'n barhaus, a dewch â'r saws i'r berw nes bydd wedi tewhau.
6.	Mewn dysgl y gellir ei rhoi yn y popty, haenwch y briwgig a'r dalenni lasagne ac yna ychwanegwch haen o saws gwyn.
7.	Gratiwch y caws a'i ysgeintio drosto. Pobwch yn y popty am 45 munud neu nes bydd wedi coginio drwodd ac yn euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda bara garlleg a phys
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogrn arferol: tua 100g o lasagne, gyda 25g o lysiau.
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y lasagne wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffyn swedden wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwrch y lasagne wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffyn swedden wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Cyri penfras, tatws ac ysbigoglys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod, llaeth, mwstard*

Math o rysáit: Prif bryd pysgod

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 25 munud

Rysáit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws, wedi'u plicio	200g	800g
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Ffiledi penfras	250g	1kg
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Powdwr cyri	6g (2 lwy de)	24g (2½ llwy fwrdd)
Tomato ffres	80g (1 canolig ei faint)	320g (4 canolig ei faint)
Llaeth cnau coco	60ml	240ml
Ysbigoglys	50g	200g
Iogwrt llaeth cyflawn plaen	15g (1 llwy de)	60g (1½ llwy fwrdd)

Dull

1. Torrwrch y tatws, winwns a garlleg
2. Stemiwrch y penfras am 10 munud, nes bydd wedi coginio drwyddo.
3. Cynheswch olew llysiâu mewn padell. Ychwanegwch y powdwr cyri a choginiwch am 1-2 funud.
4. Ychwanegwch y winwns a'r garlleg a choginiwch 3-4 munud arall i'w meddal.
5. Ychwanegwch datws, tomatos a llaeth cnau coco a'i fudferwi nes bydd y tatws wedi coginio.
6. Ychwanegwch ysbigoglys, iogwrt a haenwch y penfras i mewn. Trowch yn dda a choginiwch am 5 munud.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda chwscws

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o gyri gyda 30-40g o gwscws wedi'i goginio a thua 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysáit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyri wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda chwscws wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda blodigion blodfresych fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwrch y cyri wedi'i goginio gyda chwscws wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda

blodigion blodfresych fel bwyd bys a bawd.

Pei cyw iâr a llysiau

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys seleri, llaeth, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 110g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 45 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Moron, wedi'u plicio	80g (1 canolig ei maint)	320g (4 canolig ei maint)
Seleri	25g (1 ffon)	100g (4 ffon)
Brest cyw iâr	250g	1kg
Ciwb stoc cyw iâr, sy'n cynnwys llai o halen	3g (½ ciwb)	12g (2 giwb)
Dŵr berw	100ml	400ml
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Sbred olew llysiau	20g	80g
Blawd plaen	25g (1 llwy fwrdd)	100g (4 llwy fwrdd)
Llaeth hanner sgim	40ml	160ml
Pys wedi'u rhewi	40g	160g
Crwst pwff	50g	200g

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 200°C/400°F/marc nwy 6.
2.	Deisiwch y moron, seleri a chyw iâr.
3.	Gwnewch y stoc.
4.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y cyw iâr. Coginiwch am 3-4 munud nes bydd yn dechrau brownio.
5.	Ychwanegwch y moron a'r seleri a choginiwch am 3-4 munud arall. Rhowch i un ochr.
6.	Paratowch saws gwyn roux: mewn padell arall, toddwch y sbred olew llysiau ar wres isel. Pan fydd wedi toddi, ychwanegwch y blawd gan ei droi a choginiwch ar wres isel am 1–2 funud. Yn raddol, ychwanegwch y llaeth fymryn ar y tro gan ei droi'n barhaus, a dewch â'r saws i'r berw nes bydd wedi tewhau.
7.	Ychwanegwch y cymysgedd cyw iâr a llysiau, y pys a'r stoc at y saws gwyn a'i droi'n dda i'w gyfuno. Mudferwch ar wres isel am 5 munud.
8.	Ar arwyneb ag ychydig o flawd arno, rholiwch y crwst.
9.	Arllwyswch y cymysgedd cyw iâr a llysiau i ddysgl y gellir ei rhoi yn y popty a rhowch y crwst drosto. Tacluswch yr ymylon. Pobwch yn y popty am 30 munud neu nes

bydd y crwst yn euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thatws rhost a llysiau gwyrdd y gwanwyn

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o gymysgedd cyw iâr a llysiau gyda 30-40g o datws rhost a thua 25g o llysiau gwyrdd y gwanwyn.

Addasiadau i'r rysâit: coginiwch heb y ciwb stoc, a gweinwch heb roi'r crwst drosto.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cymysgedd neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda thatws rhost wedi'u sleisio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cymysgedd nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda thatws rhost wedi'u sleisio fel bwyd bys a bawd.

Korma cyw iâr

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys cnau almon, mwstard, sylffidau*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 110g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 25 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garlleg, wedi'i blicio	8g (2 ewin)	32g (8 ewin)
Brest cyw iâr	275g	1.1kg
Pâst cyri korma ^{ix}	40g	160g
Llaeth cnau coco, safonol	200ml	800ml
Pys wedi'u rhewi	150g	600g
Cnau coco wedi'i sychu	10g	40g

Dull

1. Torrwrch y winwns a'r garlleg, a deisiwch y cyw iâr.
2. Cynheswch yr olew mewn padell fawr, ychwanegwch y winwnsyn a'r garlleg a choginiwch am ychydig funudau nes byddant yn feddal.
3. Ychwanegwch y past korma a choginiwch am ychydig funudau, yna ychwanegwch frest cyw iâr a choginiwch nes bydd wedi brownio.
4. Ychwanegwch y llaeth cnau coco, pys wedi'u rhewi a chnau coco a dewch ag ef i'r berw. Mudferwch nes bod y cyw iâr wedi'i goginio drwodd a'r saws wedi tewhau.

^{ix} Os yw'r lleoliad yn ddi-gnau, darllenwch y cynhwysion yn y pâst korma i weld a yw'n cynnwys cnau – mae rhai pastaau yn cynnwys cnau almon, a gall rhai gynnwys pysgnau.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda reis brown.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 65g, gyda 30-40g o reis wedi'i goginio a thua 25g o ffa gwyrdd.

Addasiadau i'r rysáit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y korma wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis brown wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lympiâu meddal. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwyd neu briwiwch y korma wedi'i goginio gyda reis brown wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

Hotpot cyw iâr a chennin hufennog

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 240g
Amser paratoi: 15 munud
Amser coginio: 25 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: First Steps Nutrition Trust, Eating well recipe book: Simple cost-effective ideas for the whole family

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Cennin	100g	400g
Moron, wedi'u plicio	100g	400g
Tatws, wedi'u plicio	450g	1.8kg
Ffa gwyrdd	50g	200g
Brest cyw iâr	225g	900g
Olew llysiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Dŵr	200ml	800ml
Caws hufen	75g	300g

Dull	
1.	Torrwch y cennin, moron a thatws. Tacluswch a hanerwch y ffa.
2.	Deisiwch y cyw iâr.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell fawr. Ychwanegwch y cyw iâr a'i ffrïo am 2 i 3 munud.
4.	Ychwanegwch y cennin, moron, tatws, ffa gwyrdd a dŵr, dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am tua 20 munud nes bydd y llysiau a'r cyw iâr wedi coginio.
5.	Diffoddwch y gwres, ychwanegwch y caws hufen gan gymysgu'r cyfan.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda llysiau tymhorol fel brocoli.
Babanod 7-12 mis oed Maint dogn arferol: tua 100g a 25g o lysiau. Addasiadau i'r rysâit: dim Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch yr hotpot wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda brocoli fel bwyd bys a bawd. Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch yr hotpot wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda brocoli fel bwyd bys a bawd.

Cacennau pysgod a phys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, pysgod, llaeth, soia, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd pysgod
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 140g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 45 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws, wedi'u plicio	150g	600g
Cennin	60g (½ bach)	240g (2 fach)
Wy	50g (1 canolig ei faint)	200g (4 canolig ei faint)
Ffiledi penfras	250g	1kg
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (2 llwy fwrdd)
Pys wedi'u rhewi	100g	400g
Sudd lemon	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Cennin syfi ffres	5g	20g
Blawd plaen	50g (2½ llwy fwrdd)	200g
Briwsion bara gwenith cyflawn	100g	400g

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 180°C/350°C/marc nwy 4.
2.	Deisiwch y tatws a'u berwi nes byddant yn feddal. Draeniwch y tatws a'u stwnsio.
3.	Sleisiwch y cennin yn fân. Curwch y wyau.
4.	Stemiwch neu bobwch y pysgodyn nes bydd wedi'i goginio drwodd.
5.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y cennin a phys. Coginiwch nes bydd wedi meddal.
6.	Haenwch y pysgodyn i mewn i'r stwnsh tatws ac ychwanegwch y cennin, pys, sudd lemon a chennin syfi. Cymysgwch y cyfan yn dda.
7.	Rhannwch y cymysgedd yn 10 neu 40, a gwnewch siapau patis (cacennau pysgod).
8.	Mewn powlenni ar wahân, rhwch y blawd, y wyau wedi'u curo a'r briwsion bara. Trowch pob cacen bysgod yn ei thro yn y blawd, yr wy ac yna'r briwsion bara.
9.	Rhowch nhw ar hambwrdd pobi a'u pobi yn y popty am 15-20 munud, neu nes bydd y briwsion bara yn frown euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thalpiâu tatws ac ysbigoglys.
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 65g o gacennau pysgod a 30-40g o datws a 25g o ysbigoglys.
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cacennau pysgod wedi'u coginio neu eu

rhoi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal, neu sleisiwch nhw i'w gweini fel bwyd bys a bawd. Gweinwch gyda thalpiau tatws ac ysbigoglys.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwc neu briwiwch y cacennau pysgod wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol, neu sleisiwch nhw i'w gweini fel bwyd bys a bawd. Gweinwch gyda thalpiau tatws ac ysbigoglys.

Masala pysgod

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle penfras mewn saws tomato a phuprynnau, neu bryd pysgod arall

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 110g

Amser paratoi: 35 munud

Amser coginio: 20 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons Day Nurseries

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Olew llysiâu	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Stwnsh tomato	15g (1 llwy fwrdd)	60g (4 llwy fwrdd)
Coriander mâl	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Cwmin mâl	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Tyrmerig	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Sudd lemon	10ml (1 llwy bwddin)	40ml (2 lwy fwrdd)
Ffiledi morlas	250g	1kg
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Puprynnau coch, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Coriander ffres	5g (2-3 sbrigyn)	20g (1 swp bach)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (1 x tun 400g)
Powdwr tsili	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)

Dull

1. Cynheswch y popty i 190°C/375°F/marc nwy 5.
2. Gwasgwch y garleg.
3. Cymysgwch hanner yr olew gyda'r stwnsh tomato, garleg, coriander mâl, cwmin, tyrperig a sudd lemon. Cadwch ei hanner i wneud y saws.
4. Rhowch y pysgodyn i'w farinadu yng ngweddill y cymysgedd sbeis, ei orchuddio a gadael iddo farinadu mewn oergell am 30 munud.
5. Rhowch y pysgodyn ar hambwrdd pobi a'i rostio am 10-15 munud, gan ei droi hanner ffordd drwodd.
6. Yn y cyfamser, torrwc y winwnsyn, puprynnau a choriander.
7. Cynheswch weddill yr olew mewn padell. Ychwanegwch y winwns a choginiwch am 3-4 munud.
8. Yna, ychwanegwch y puprynnau, tomatos, powdwr tsili a 2 lwy fwrdd o'r cymysgedd sbeis a'i goginio nes bydd wedi tewhau.

9.	Haenwch y pysgodyn wedi'i goginio i mewn i'r saws neu gweinwch ef ar wahân.
----	---

Awgrym ar gyfer gweini: gyda thua 90g o reis gwyn neu frown wedi'i goginio

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o fasala gyda 30-40g o reis wedi'i goginio

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y masala neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal, a chwiliwch yn drylwyr am esgryn. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiâu.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y masala wedi'i goginio gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol, a chwiliwch yn drylwyr am esgryn. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiâu.

Gamwn a saws persli

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 100g

Amser paratoi: 5 munud

Amser coginio: 35 munud ac amser i goginio'r gamwn

Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Stêcs neu ddarn o gamwn heb ei fygu	250g	1kg
Persli ffres	5g (3-5 sbrigyn)	20g (1 swp bach)
Sbred olew llysiâu	20g	80g
Blawd plaen	15g (½ llwy fwrdd orlawn)	60g (2 lwy fwrdd orlawn)
Llaeth hanner sgim	250ml	1L

Dull

1. Coginiwch y gamwn gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y pecyn. Bydd amseroedd coginio yn amrywio yn dibynnu ar faint y darn.
2. Torrwrch y persli yn fras.
3. Paratowch saws gwyn roux: mewn padell arall, toddwch y sbred olew llysiâu ar wres isel. Pan fydd wedi toddi, ychwanegwch y blawd gan ei droi a choginiwch ar wres isel am 1–2 funud. Yn raddol, ychwanegwch y llaeth fymryn ar y tro gan ei droi'n barhaus, a dewch â'r saws i'r berw nes bydd wedi tewhau. Ychwanegwch y persli wedi'i dorri a'i droi i'w gyfuno.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thatws newydd a ffa gwyrdd

Babanod 7-12 mis oed

I gael opsiwn sy'n cynnwys llai o halen ar gyfer babanod dan 12 mis oed, rhowch gynnig ar weini 'popovers' olmet gyda thatws newydd a ffa gwyrdd.

Pei corbenfras ac eog

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod, llaeth, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd pysgod
Maint dogn arferol 1-4 oed: 180g
Amser paratoi: 45 munud
Amser coginio: 30 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: The Peterborough Nursery School and Acorn Grove Nursery, Children's Food Trust Autumn/Winter menu and recipes for early years settings

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws blodiog gwyn, wedi'u plicio	450g	1.8kg
Ffiledi eog	80g	320g
Ffiledi corbenfras	80g	320g
Ffiledi corbenfras wedi'u mygu	50g	200g
Llaeth hanner sgim	230ml	920mL
Sbred olew llysiâu	20g	80g
Blawd plaen	15g (1 llwy fwrdd)	60g (4 llwy fwrdd)
Persli ffres	5g (2-3 sbrigyn)	20g (1 swp bach)

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 180°C/350°C/marc nwy 4.
2.	Torrwch y tatws yn giwbiau 2cm. Berwch mewn dŵr am 15 munud neu nes byddant yn feddal.
3.	Yn y cyfamser, rhowch yr eog, corbenfras a chorbenfras wedi'i fygu mewn padell fawr, eu gorchuddio â'r llaeth (gan gadw rhywfaint ar gyfer y tatws stwnsh) a'i fudferwi am 20 munud neu nes bydd y pysgodyn wedi'i goginio. Tynnwch y pysgod o'r llaeth, chwiliwch am esgyrn a rhowch i un ochr. Cadwch y llaeth er mwyn potsio'r pysgod.
4.	Draeniwch y tatws a'u stwnsio gyda thua chwarter y sbred a gweddill y llaeth er mwyn creu ansawdd llyfn.
5.	Paratowch saws gwyn roux: toddwch weddill y sbred olew llysiâu mewn padell ar wres isel. Pan fydd y sbred olew llysiâu wedi toddi, ychwanegwch y blawd a'i gymysgu'n dda. Yn raddol, ychwanegwch y llaeth a ddefnyddiwyd i botsio'r pysgodyn at y cymysgedd sbred olew llysiâu a blawd, gan droi'n barhaus nes bydd y saws yn llyfn a thrwchus.
6.	Haenwch y pysgodyn i mewn i'r saws gwyn ac ychwanegwch y persli gan ei droi i'w gyfuno.
7.	Arllwyswch y cymysgedd pysgod i ddysgl fawr y gellir ei rhoi yn y popty a rhowch y tatws stwnsh ar ei ben.
8.	Pobwch yn y popty am 30 munud, neu nes ei fod wedi coginio drwodd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda bresych coch a ffa dringo
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 100g o bei pysgod gyda 25g o ffa dringo.
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y pei pysgod wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffa dringo fel

bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwrch y pei pysgod wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa dringo fel bwyd bys a bawd.

Corbenfras gyda ratatouille

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 110g

Amser paratoi: 15 munud

Amser coginio: 35 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: The Peterborough Nurse School and Children's Food Trust Spring/Summer menu and recipes for early years settings

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	30g (½ bach)	120g (2 fach)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	8g (2 ewin)
Madarch	30g (3 canolig ei maint)	120g (6 fawr)
Courgette	50g (½ canolig ei faint)	200g (2 ganolig ei faint)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)
Oregano wedi'i sychu	0.25g (¼ llwy de)	1g (1 llwy de)
Teim wedi'i sychu	0.25g (¼ llwy de)	1g (1 llwy de)
Dŵr	50ml	200ml
Ffiledi corbenfras	250g	1kg

Dull

1. Torrwrch y winwns, garlleg, madarch a courgette.
2. Rhowch y winwns, garlleg, madarch, courgettes, tomatos tun, oregano, teim a dŵr mewn sosban fawr, dewch ag ef i'r berw ac yna mudferwch nes bydd yr holl lysiau wedi'u coginio (tua 30 munud).
3. Yn y cyfamser, stemiwrch neu pobwch y corbenfras.
4. Gweinwch y corbenfras fel darnau gyda'r saws drostynt neu haenwch y pysgodyn i mewn i'r saws.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda phasta gwyn wedi'i goginio

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogrn arferol: tua 70g a 30-40g o basta wedi'i goginio

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwrch y pysgod a'r llysiau wedi'u coginio neu eu rhoi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda phasta gwyn wedi'i goginio (naill ai fel bwyd bys a bawd, neu wedi'i stwnsio gyda'r pysgod a'r llysiau)

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwrch y pysgod a llysiau wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda phasta gwyn wedi'i goginio

(naill ai fel bwyd bys a bawd, neu wedi'i dorri gyda'r pysgod a'r llysiau).

Goulash cig eidion Hwngaraidd

Rysáit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle cyri cig eidion ac ysbigoglys, stroganoff cig eidion, neu bryd cig coch arall

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysáit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 100g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 2 awr 20 munud

Rysáit wedi'i haddasu o: Bright Horizons Day Nurseries

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Puprynnau coch, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Madarch	50g (5 canolig ei maint)	200g (10 fawr)
Persli ffres	5g (2-3 sbrigyn)	20g (1 swp bach)
Cig eidion, stêc brwysio	300g	1.2kg
Blawd plaen	5g (1 llwy de)	20g (1 llwy fwrdd wastad)
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
paprica	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Dŵr	350ml	1.4L
Stwnsh tomato	15g (1 llwy fwrdd)	60g (4 llwy fwrdd)
Iogwrt llaeth cyflawn plaen	60g (1½ llwy fwrdd)	240g (6 llwy fwrdd)

Dull

1.	Torrwch y winwns, puprynnau, madarch a phersli. Deisiwch y cig eidion.
2.	Ysgeintiwch y blawd ar blât a'i ddefnyddio i orchuddio'r cig eidion.
3.	Cynheswch y popty i 180°C/350°F/marc nwy 4.
4.	Cynheswch yr olew mewn dysgl gaserol wrth-fflam, ychwanegwch y cig eidion a'i goginio nes bydd wedi brownio drosto. Tynnwch y cig eidion allan gyda llwy dyllog a'i roi i un ochr.
5.	Ychwanegwch y winwns at y ddysgl gaserol a choginiwch am 3-4 munud.
6.	Ychwanegwch y puprynnau a choginiwch am 3-4 munud arall, yna ychwanegwch y madarch a choginiwch am 3 munud.
7.	Ysgeintiwch y paprica a choginiwch am 2 funud.
8.	Rhowch y cig yn ôl yn y ddysgl, arllwyswch y dŵr i mewn ac ychwanegwch y stwnsh tomato gan droi i'w gyfuno.
9.	Gorchuddiwch â chaead a'i roi yn y popty am tua 2 awr.
10.	Sicrhewch fod y cig yn frau. Ychwanegwch y iogwrt a'r persli wedi'i dorri a'i droi i'w gyfuno cyn ei weini.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda thua 90g o gwscws wedi'i goginio.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o goulash a 30-40g o gwscws

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y goulash neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda chwscws nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llyisiau.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y goulash gyda chwscws nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llyisiau.

Cyri pysgod Jamaicaidd

Rysâit ychwanegol: rhwch gynnig arni yn lle cyri penfras, tatws ac ysbigoglys, penfras mewn saws tomato a phuprynnau, neu bryd pysgod gwyn arall.

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod, mwstard*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g

Amser paratoi: 15 munud

Amser coginio: 20 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons Day Nurseries

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws, wedi'u plicio	75g	300g
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Puprynnau coch, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Plantan, wedi'i blicio	50g (¼ canolig ei faint)	200g (1 canolig ei faint)
Morlas	250g	1kg
Olew llyisiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Dŵr	100ml	400ml
Powdwr cyri	1.5g (½ llwy de)	6g (2 llwy de)
Tomatos tun	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Pys wedi'u rhewi	50g	200g

Dull

1. Deisiwch y tatws. Berwch mewn dŵr heb halen ynddo nes byddant wedi coginio. Yna draeniwch.
2. Yn y cyfamser, torrwrch y winwns, puprynnau, garlleg a phlantan.
3. Torrwrch y pysgod yn ddarnau, gan dynnu unrhyw esgyrn.
4. Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns a'r puprynnau a choginio am 5 munud nes bydd wedi meddal.
5. Ychwanegwch y garlleg, dŵr, powdwr cyri, tomatos a phlantan a'i droi i'w gyfuno.
6. Dewch ag ef i'r berw ac yna trowch y gwres i lawr a gadewch iddo fudferwi am 5 munud nes bydd wedi tewhau rhywfaint.

7.	Ychwanegwch y pys, pysgod a thatws. Coginiwch yn ysgafn am 5-10 munud arall nes bydd y pysgod wedi coginio.
----	---

Awgrym ar gyfer gweini: gyda thua 90g o reis brown wedi'i goginio
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 60g o gyri pysgod a 30-40g o reis weid'i goginio
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyri neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal, a chwiliwch yn drylwyr am esgyrn. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiau.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cyri gyda reis wedi'i goginio gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol, a chwiliwch yn drylwyr am esgyrn. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiau.

Hotpot cig oen a haidd gwyn

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys haidd (glwten), seleri, llaeth, soia, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 190g
Amser paratoi: 15 munud
Amser coginio: 1 awr 15 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Cennin	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Tatws, wedi'u plicio	450g	1.8kg
Gronynnau greffi sy'n cynnwys llai o halen	8g (1 llwy de)	32g (4 llwy de)
Dŵr berw	125ml	500ml
Cig oen wedi'i friwio	275g	1.1kg
Haidd gwyn	40g	160g
Persli wedi'i sychu	1g (1 llwy de)	4g (4 llwy de)
Mintys wedi'i sychu	1g (1 llwy de)	4g (4 llwy de)

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 180°C/350°C/marc nwy 4.
2.	Torrwrch y cennin a sleisiwch y tatws.
3.	Ychwanegwch ddŵr berw at y gronynnau greffi a throi i'w gyfuno.
4.	Ffriwch y briwgig yn sych dros wres canolig nes bydd wedi brownio. Ychwanegwch y llysiau a choginio am ychydig funudau eto.
5.	Ychwanegwch yr haidd gwyn, greffi, persli a mintys. Dewch ag ef i'r berw.
6.	Rhowch y cymysgedd mewn dysgl y gellir ei rhoi yn y popty, rhowch y tatws wedi'u sleisio ar ei ben a phobwch yn y popty am awr o leiaf nes bydd y tatws wedi coginio drwodd ac yn euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda stwnsh gwreiddlysiau.
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 100g o hotpot ynghyd â 25g o wreiddlysiau.
Addasiadau i'r rysâit: peidiwch â chynnwys y gronynnau greffi ar gyfer babanod dan 12 mis oed
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch yr hotpot wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffyn gwreiddlysiau fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch yr hotpot wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffyn gwreiddlysiau fel bwyd bys a bawd.

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Dim*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 150g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 1 awr 40 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: The Peterborough Nursery School

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Pupryn gwyrdd, heb hadau ac wedi'i ddeisio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Madarch	40g (4 canolig ei maint)	160g (8 fawr)
Moron, wedi'u plicio	40g (½ canolig ei faint)	160g (2 canolig ei maint)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Ysgwydd cig oen neu gig oen wedi'i ddeisio	275g	1.1kg
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Paprica	9g (1 llwy fwrdd)	36g (4 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	400g (1 x tun 400g)	1.6kg (4 x tun 400g)
Dŵr	150ml	600ml

Dull	
1.	Torrwrch y llysiau a'r garlleg. Deisiwch y cig oen os bydd angen.
2.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns. Coginiwch am ychydig funudau.
3.	Ychwanegwch y cig oen a'i goginio nes bydd wedi brownio.
4.	Ychwanegwch y garlleg, paprica, tomatos tun a dŵr a throwch i gyfuno'r cyfan. Gorchuddiwch a mudferwch am 1 awr 30 munud neu nes bydd y cig oen wedi'i goginio ac yn frau.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda reis brown a ffa gwyrdd
--

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 80g a 30-40g o reis wedi'i goginio a 25g o ffa gwyrdd wedi'i goginio.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y goulash wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal.

Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y goulash wedi'i goginio gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

Mwsaca cig oen

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, llaeth*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 160g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 45 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Planhigyn wy	130g	520g
Mozzarella	20g	80g
Briwgig cig oen	225g	900g
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)
Stwnsh tomato	25g (1 ½ llwy fwrdd)	100g (6 ½ llwy fwrdd)
Sinamon mâl	1.5g (½ llwy de)	2g (2 lwy de)
Perlysiâu cymysg wedi'u sychu	0.5 g (½ llwy de)	2g (2 lwy de)
Caws hufen	50g	200g
Wy	25g (½ wy)	100g (2 wy)
logwrt llaeth cyflawn Groegaid	60g (1½ llwy fwrdd)	240g (5½ llwy fwrdd)

Dull

1. Cynheswch y gril i'r gosodiad uchaf.
2. Torrwrch y winwns a'r garleg. Sleisiwch y planhigyn wy a gratiwch y mozzarella.
3. Cynheswch badell fawr ac ychwanegwch y briwgig cig oen. Ffriwch yn sych nes bydd wedi brownio.
4. Ychwanegwch y winwns a'r garleg a choginiwch am 1-2 funud.
5. Ychwanegwch y tomatos tun, stwnsh tomatos, sinamon a pherlysiâu. Trowch y cyfan yn dda, a'i fudferwi am 25-30 mud neu nes bydd y briwgig wedi coginio.
6. Yn y cyfamser, priciwch y planhigyn wy gyda fforc a'i goginio yn y micro-don am

	3-5 munud nes bydd yn feddal.
7.	Cymysgwch y caws hufen, yr wy a'r iogwrt gyda'i gilydd.
8.	Trosglwyddwch y cymysgedd briwgig i ddysgl fawr y gellir ei rhoi yn y popty. Sleisiwch y planhigyn wy a'i drefnu ar ben y cymysgedd briwgig. Arllwyswch y cymysgedd iogwrt drosto ac ysgeintio caws mozzarella wedi'i ratio.
9.	Rhowch y ddysgl dan y gril nes bydd y topin wedi caledu a throï'n euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda bara garleg a salad cymysg**Babanod 7-12 mis oed**

Maint dogn arferol: tua 100g o fwsaca, a thua 20g o stribedi tost a thua 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y mwsaca neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bysedd tost a ffyn moron wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torr wch neu briwiwch y mwsaca nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bysedd tost a ffyn moron wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Tagine cig oen**Wedi'i gynnwys yn:** Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys sylffidau*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol 1-4 oed: 130g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 40 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Puprynnau coch, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Pupryn gwyrdd, heb hadau ac wedi'i ddeisio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Ysgwydd cig oen neu gig oen wedi'i ddeisio	275g	1.1kg
Olew llysiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Bricyll wedi'u sychu	25g (1 llwy fwrdd)	100g (4 llwy fwrdd)
Rhesins	20g (1 llwy fwrdd)	80g (4 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)
Dŵr	250ml	1L
Sbeis cymysg	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)

Dull

1. Deisiwch y winwns. Tynnwch yr hadau o'r puprynnau a'u sleisio.
2. Deisiwch y cig oen.
3. Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y cig oen wedi'i ddeisio. Coginiwch nes bydd wedi brownio.

4.	Ychwanegwch y winwns a'r puprynnau a choginiwch am 5 munud.
5.	Ychwanegwch y bricyll wedi'u sychu, rhesins, tomatos tun, dŵr a sbeis cymysg. Dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am 30 munud neu nes bydd y cig oen wedi coginio a'r llysiau yn feddal.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda chwscws llysiau**Babanod 7-12 mis oed****Maint dogrn arferol:** tua 60g o tagine, ynghyd a 30-40g o gwscws a 25g o ffa gwyrdd.**Addasiadau i'r rysâit:** dim**Gweini i fabanod 7-9 mis oed:** stwnsiwch y tagine wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda'r cwscws wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.**Gweini i fabanod 10-12 mis oed:** torrwrch neu briwiwch y tagine wedi'i goginio gyda'r cwscws wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.**Cyw iâr lemon a phupur****Rysâit ychwanegol:** rhowch gynnig arni yn lle cyw iâr rhost, hotpot cyw iâr hufennog, neu bryd dofednod arall.**Gwybodaeth am alergeddau:** Yn cynnwys seleri, llaeth***Math o rysâit:** Prif bryd cig**Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed:** 60g**Amser paratoi:** 10 munud ac amser i farinadu**Amser coginio:** 45 munud**Rysâit wedi'i haddasu o:** Tîm Lles a Maethiad Dechrau'n Gynnar, Bwrdeistref Newham yn Llundain

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Iogwrt llaeth cyflawn plaen	65g	260g
Pupur du	4g (2 llwy de)	16g (8 llwy de)
Garam masala	6g (2 llwy de)	24g (8 llwy de)
Sudd lemon	30ml (2 llwy fwrdd)	120ml (8 llwy fwrdd)
Powdwr tsili	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Clunia cyw iâr, ar ôl tynnu'r esgyrn a'r croen	280g	1.1kg

Dull

1.	Mewn powlen fawr, cymysgwch y iogwrt, pupur du, garam marsala, sudd lemon a phowdwr tsili. Trowch yn dda i gyfuno'r cyfan.
2.	Gwnewch doriadau bach yng nghanol pob clun cyw iâr a'u rhoi i un ochr.
3.	Ychwanegwch y cyw iâr at y cymysgedd iogwrt a sbeis a'i gymysgu'n dda, gan sicrhau bod y cyw iâr yn cael ei orchuddion gan y marinâd.
4.	Gorchuddiwch y ddysgl â 'cling film' a'i roi i farinadu yn yr oergell am 1-2 awr.
5.	Pan fyddwch yn barod i goginio, cynheswch y popty i 220°C/425°F/marc nwy 7.

6.	Leiniwch hambwrdd pobi gyda ffoil, rhowch y cyw iâr arno a'i orchuddio â ffoil.
7.	Rhowch y cyw iâr yn y popty a phobwch am 45 munud neu nes bydd sudd y cig yn rhedeg yn glir.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda thua 90g o reis brown wedi'i goginio a 40g o salsa tomato

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 40g gyda 30-40g o reis wedi'i goginio

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyw iâr neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal, a chwiliwch yn drylwyr am esgyrn. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiâu.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cyw iâr gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol, a chwiliwch yn drylwyr am esgyrn. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiâu.

Caserol porc, cennin a mwstard

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, mwstard, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g

Amser paratoi: 5 munud

Amser coginio: 45 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Cennin	100g (½ cennin mawr)	400g (2 fawr)
Ysgwydd porc	335g	1.3kg
Olew llysiâu	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Blawd plaen	30g (1 llwy fwrdd orlawn)	120g (4 llwy fwrdd orlawn)
Mwstard grawn cyflawn	35g	140g
Llaeth hanner sgim	150ml	600ml
Dŵr	100ml	400ml

Dull

1.	Sleisiwch y cennin. Deisiwch y porc.
2.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y cennin. Coginiwch nes bydd wedi meddalau.
3.	Ychwanegwch y porc a'i goginio nes bydd wedi brownio.
4.	Ychwanegwch y blawd plaen, gan ei droi yn dda er mwyn gorchuddio'r porc a'r cennin. Coginiwch am 1 -2 funud.
5.	Ychwanegwch y mwstard, llaeth a dŵr a chymysgu'n dda. Coginiwch nes bydd y porc yn frau.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thatws stwnsh ac ysgewyll Brwsel

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o gaserol, ynghyd â 30-40g o datws stwnsh a 25g o ysgewyll wedi'u sleisio.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y caserol wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gydag ysgewyll wedi'u sleisio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y caserol wedi'i goginio gyda thatws stwnsh wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gydag ysgewyll wedi'u sleisio fel bwyd bys a bawd.

Peli cig porc

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, soia, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 130g

Amser paratoi: 5 munud

Amser coginio: 35 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	150g (1 canolig ei faint)	600g (4 canolig ei faint)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Olew llysiâu	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Briwgig porc	250g	1kg
Briwsion bara gwyn	50g	200g
Wy	50g (1)	200g (4)
Oregano wedi'i sychu	1g (1 llwy de)	4g (4 llwy de)
Stwnsh tomato	15g (1 llwy fwrdd)	60g (4 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (4 x tun 400g)
Basil wedi'i sychu	1g (1 llwy de)	4g (4 llwy de)

Dull

1. Cynheswch y popty i 200°C/400°F/marc nwy 7.
2. Torrwrch y winwns a'r garlleg yn fân.
3. Cynheswch hanner yr olew mewn padell ac ychwanegwch hanner y winwns. Coginiwch am 5 munud neu nes bydd yn feddal a gadewch iddo oeri.
4. Cymysgwch y briwgig, briwsion bara, wy, oregano a winwns wedi'u coginio. Gnewch siapiau peli o feintiau cyfartal (3 i bob plentyn) a rhowch nhw ar hambwrdd pobi.
5. Rhowch y peli cig yn y popty a choginiwch am tua 20-22 munud, nes bydd yn chwilboeth drwyddo.
6. Yn y cyfamser, gnewch y saws tomato. Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch weddill y winwns a'r garlleg. Coginiwch am 5 munud neu nes bydd yn

	feddal.
7.	Ychwanegwch y stwnsh tomato, y tomatos tun a'r basil. Dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am 15 munud nes bydd y saws yn tewhau rywfaint. Ychwanegwch y peli cig wedi'u coginio at y saws tomato a throi i'w gyfuno cyn ei weini.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda phasta, pys a moron.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 50g o beli cig a saws, ynghyd â 30-40g o basta wedi'i goginio a 25g o ffyn moron.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y peli cig wedi'u coginio neu eu rhoi mewn cymysgydd bwyd gyda phasta wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal.

Gweinwch gyda moron fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y peli cig wedi'u coginio gyda saws a phasta wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda moron fel bwyd bys a bawd.

Ragw porc

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 1 awr 30 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	120g (1 canolig ei faint)	480g (2 fawr)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Afalau bwyta	100g (1)	400g (4)
Stribedi porc	300g	1.2kg
Blawd plaen	20g (1 llwy fwrdd)	80g (4 llwy fwrdd)
Olew llysiâu	10ml (2 lwy de)	45ml (3 llwy fwrdd)
Teim, wedi'i sychu	1g (1 llwy de)	3g (1 llwy fwrdd)
Dŵr	125ml	500ml
logwrt llaeth cyflawn plaen	40g (1 llwy fwrdd)	160g (4 llwy fwrdd)

Dull

1. Cynheswch y popty i 180°C/350°F/marc nwy 4.
2. Torrwrch y winwns a'r garlleg. Tynnwch galonnau'r afalau, eu chwarteru a'u sleisio.
3. Rholiwch y porc yn y blawd a'i roi i un ochr.
4. Cynheswch hanner yr olew mewn padell dros wres canolig. Ychwanegwch y winwns a choginiwch nes byddant wedi meddalau.
5. Tynnwch y winwns allan gyda llwy dylllog a'u rhoi i un ochr.
6. Ychwanegwch weddill yr olew at y badell, yna ychwanegwch y porc (fesul tipyn os

	bydd angen) a'i goginio am 5 funud nes bydd wedi brownio.
7.	Tynnwch y porc allan a'i roi i un ochr ac ailadroddwch y broses nes bydd yr holl porc wedi brownio.
8.	Rhowch yr holl porc a winwns yn y badell ac ychwanegwch y garlleg wedi'i wasgu a'r teim.
9.	Ychwanegwch ddŵr at y badell a dewch ag ef i'r berw. Yna ychwanegwch yr afalau a iogwrt.
10.	Gorchuddiwch a choginiwch yn y popty am 50-60 munud nes bydd y cig wedi coginio ac yn feddal.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thatws newydd, ffa a courgette.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 65g o ragw gyda 30-40g o datws newydd a thua 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y ragw wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda thatws newydd wedi'u coginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffa a ffyn courgette fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y ragw wedi'i goginio gyda thatws newydd wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa a ffyn courgette fel bwyd bys a bawd.

Cyw iâr rhost, gwreiddlysiau a greffi

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys haidd (glwten), llaeth, soia, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 100g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 25 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Moron, wedi'u plicio	70g (1 canolig ei maint)	280g (2 fawr)
Pannas, wedi'u plicio	75g (1 bach)	300g (4 bach)
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	30ml (2 lwy fwrdd)
Brest cyw iâr	250g	1kg
Cymysgedd greffi sy'n cynnwys llai o halen	4g (1 llwy de)	15g (1 llwy fwrdd)
Dŵr berw	100ml	400ml

Dull

1. Cynheswch y popty i 200°C/400°F/marc nwy 6.

2. Torrwrch y winwns, moron a phannas a'u rhoi mewn hambwrdd rhostio mawr, arllwyswch yr olew drostynt a throwch y llysiau gyda llwy er mwyn sicrhau eu bod wedi'u gorchuddio'n gyfartal.

3.	Rhowch y brestiau cyw iâr ar ben y llysiau. Rhostiwch yn y popty am 20-25 munud yn dibynnu ar faint y brestiau cyw iâr a nes bydd y llysiau'n feddal.
4.	Gwnewch y greffi gan ddilyn y cyfarwyddiadau.
5.	Sleisiwch y cyw iâr a'i weini gyda'r gwreiddlysiau a greffi.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thatws rhost**Babanod 7-12 mis oed**

Maint dogn arferol: 30g o gyw iâr wedi'i goginio a 30g o lysiau rhost gyda 30-40g o datws rhost.

Addasiadau i'r rysâit: gweinwch y cyw iâr a'r llysiau rhost heb greffi ar gyfer babanod o dan 12 mis oed

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyw iâr wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda thatws wedi'u coginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal, neu gweinwch y llysiau rhost gyda thatws rhost wedi'u sleisio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwh neu briwiwch y cyw iâr wedi'i goginio gyda thatws wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymuno, neu gweinwch y llysiau rhost gyda'r tatws rhost fel bwyd bys a bawd.

Risotto eog a phys**Wedi'i gynnwys yn:** Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys seleri, wy, pysgod, llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 185g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 30 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Scribbles Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Persli ffres	5g (2-3 sbrigyn)	20g (1 swp)
Ciwb stoc llysiau, sy'n cynnwys llai o halen	½ ciwb stoc	2 giwb stoc
Dŵr berw	300ml	1.2l
Ffiled eog	250g	1kg
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Pys wedi'u rhewi	200g	800g
Reis gwyn	145g	580g

Dull

1.	Deisiwch y winwns a'r garlleg a thorrwch y persli yn fân.
2.	Toddwch y ciwb stoc yn y dŵr berw.
3.	Stemiwch yr eog nes bydd wedi'i goginio drwodd.
4.	Yn y cyfamser, cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns. Coginiwch am 1 -2 funud.

5.	Ychwanegwch y pys a'r reis a'i droi i'w gyfuno. Ychwanegwch y stoc nes bydd y reis a'r llysiau wedi'u gorchuddio a throwch y cyfan i'w gyfuno. Gadewch iddo fudferwi nes bydd y rhan fwyaf o'r stoc wedi'i amsugno.
6.	Profwch a yw'r reis wedi'i goginio. Os nad ydyw, ychwanegwch fwy o ddŵr a pharhewch i'w fudferwi nes bydd wedi coginio.
7.	Haenwch yr eog a'i gyfuno'n dda. Ysgeintiwch y persli drosto.

Awgrym ar gyfer gweini: Rhowch gynnig ar lysiau tymhorol gwahanol gyda'r risotto.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 100g o risotto, ynghyd â thua 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: coginiwch heb y ciwb stoc wrth weini i fabanod dan 12 mis oed

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y risotto wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffyn puprynnau coch fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwyd neu briwiwch y risotto wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffyn puprynnau coch fel bwyd bys a bawd.

Tagine cig oen sbeislyd

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle goulash cig oen neu bryd cig coch arall.

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys sylffidau*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 110g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 1 awr

Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons Day Nurseries

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Cig oen wedi'i ddeisio	200g	800g
Sbeis cymysg mâl	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Sinsir mâl	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Corbys coch wedi'u sychu	25g	100g
Tomatos tun wedi'u torri	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Dŵr	200ml	800ml
Sudd lemon	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Syltan	15g (1½ llwy fwrdd)	60g (2 llwy fwrdd)
Bricyll wedi'u sychu	20g (¾ llwy fwrdd)	80g (3 llwy fwrdd)

Dull

1.	Deisiwch y winwns a'r cig oen.
2.	Cynheswch badell, ychwanegwch y cig oen a'i goginio nes bydd wedi brownio.
3.	Ychwanegwch y winwns, sbeis cymysg, sinsir a chorby. Ychwanegwch y tomatos tun, dŵr a sudd lemon. Gorchuddiwch a mudferwch am 30-40 munud, gan ychwanegu mwy o ddŵr os bydd angen.

4. Ychwanegwch y syltanas a bricyll a mudferwch am 10 munud arall.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda thua 90g o gwscws wedi'i goginio.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o tagine gyda 30-40g o gwscws

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y tagine neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda chwscws nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llyisiau.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y tagine gyda chwscws nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llyisiau.

Penfras wedi'i stemio mewn saws tomato a phuprynnau cymysg

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 125g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 35 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Scribbles Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Puprynnau coch, heb yr hadau	40g (¼)	160g (1 canolig ei faint)
Pupryn gwyrdd, heb hadau ac wedi'i ddeisio	80g (½)	320g (2 ganolig ei faint)
Basil ffres	3g (2-3 sbrigyn)	10g (swp bach)
Ffiledi penfras	250g	1kg
Olew llyisiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)
Stwnsh tomato	15g (1 llwy fwrdd)	60g (4 llwy fwrdd)
Perlyisiau cymysg wedi'u sychu	0.5 g (½ llwy de)	3g (3 lwy de)

Dull

1. Torrwrch y winwns, garlleg a phuprynnau. Torrwrch y basil yn fras.
2. Stemiwch y ffiledi penfras.
3. Yn y cyfamser, cynheswch yr olew mewn sosban. Ychwanegwch y winwns a'u coginio nes byddant yn dechrau meddal.
4. Ychwanegwch domatos tun, stwnsh tomato, perlyisiau cymysg, rhowch gaead arno a'i fudferwi am 10-15 munud.
5. Ychwanegwch y puprynnau at y cymysgedd tomato a'u coginio am 10-15 munud arall.
6. Haenwch y penfras wedi'i stemio i mewn i'r saws neu gweinwch ef ar wahân.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda chwscws a ffa gwyrdd

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o bysgod a saws, gyda 30-40g o gwscws a 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y pysgod wedi'u coginio a'r saws neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda chwscws wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y pysgod wedi'i goginio a'r saws gyda chwscws wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

Surbiyaan (cyri cig oen Somaliaidd)

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle goulash cig oen, hotpot cig oen, neu bryd cig coch arall.

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 200g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 40 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Tîm Lles a Maethiad Dechrau'n Gynnar, Bwrdeistref Newham yn Llundain

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Tomato ffres	250g	1.1kg
Cig oen wedi'i ddeisio	300g	1.2kg
Olew llysiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Coriander mâl	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Cwmin mâl	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Dŵr	10ml (2 lwy de)	40ml (2 lwy fwrdd)
Ffon sinamon	1 ffon	2 ffon
Sudd lemon	5ml (1 llwy de)	20ml (1½ llwy fwrdd)
Reis gwyn	160g	640g

Dull

1. Torrwrch y winwns, garleg a thomato.
2. Cynheswch hanner yr olew yn y badell, ychwanegwch y cig oen a'i goginio ar wres isel nes bydd wedi brownio.
3. Ychwanegwch dri chwarter y winwns a'r holl domatos a throwch y cyfan.
4. Ychwanegwch y coriander, cwmin, garleg a dwy lwy de o ddŵr at y cig a'i fudferwi am 2-3 munud.
5. Ychwanegwch y ffon sinamon a'r sudd lemon. Gadewch iddo fudferwi am 5-10 munud.
6. Yn y cyfamser, mewn padell arall, coginiwch y reis gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrhydd. Yna draeniwch.
7. Cynheswch weddill yr olew mewn padell, ychwanegwch weddill y winwns a'i goginio am 5 munud neu nes bydd yn feddal.

8.	Pan fydd y cig wedi'i goginio, tynnwch ef oddi ar y gwres.
9.	Mewn dysgl weini fawr, rhowch haen o reis, yna haen o gig ac ailadroddwch y broses, gan ddefnyddio'r holl gig a reis, gan orffen gyda haen o gig.
10	Trefnwch y winws ar ben yr haenau o gig a reis a'i weini.

Awgrym ar gyfer gweini: Ysgeintiwch resins neu syltanas i gael garnais traddodiadol.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 100g (yn cynnwys y cyri a reis)

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyri a reis neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiâu.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cyri a reis nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiâu.

Cwscws cig oen a dêts melys a sbeislyd

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle mwsaca cig oen, goulash cig oen, neu bryd cig coch arall.

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 170g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 40 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons Day Nurseries

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Moron, wedi'u plicio	100g (1 ganolig ei maint)	400g (4 canolig ei maint)
Dêts wedi'u sychu	30g	120g
Cwscws	175g	700g
Dŵr berw	225ml	900ml
Cig oen wedi'i friwio	275g	1.1kg
Tomatos tun wedi'u torri	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Dŵr	100ml	400ml
Sinamon mâl	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)

Dull

1.	Torrwrch y garlleg, moron a dêts.
2.	Gwnewch y cwscws gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchedd. Draeniwch os oes angen.
3.	Rhowch y cig oen mewn padell boeth a'i goginio am 5 munud nes bydd wedi brownio.
4.	Ychwanegwch y garlleg a choginiwch am 1-2 funud arall.
5.	Ychwanegwch y moron a'r dêts, tomatos, hanner y dŵr a sinamon.
6.	Dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am 25 munud nes bydd y saws wedi lleihau a

	thewhau.
7.	Ychwanegwch y cwscws at y cig oen a choginiwch am 5 munud arall gan ychwanegu gweddill y dŵr os bydd angen.

Awgrym ar gyfer gweini: gweinwch y cwscws ar wahân ac ychwanegwch sbeis ysgafn ato neu ysgewtiwch goriander ffres

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 100g (yn cynnwys cwscws)

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cig oen a chwscws neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llyisiau.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cig oen a chwscws wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llyisiau.

Cyri cyw iâr Thai

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 80g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 25 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Leim	10ml (½ leim)	40ml (2 leim)
Coriander ffres	5g (2-3 sbrigyn)	20g (1 swp bach)
Brest cyw iâr	250g	1kg
Olew llyisiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Pâst cyri gwyrdd Thai	5g (1 llwy fwrdd wastad)	20g (1 llwy fwrdd)
Mangetout	100g	400g
Llaeth cnau coco, safonol	100ml	400ml

Dull	
1.	Gratiwch groen y leim a gwasgwch y sudd ohono.
2.	Torrwrch y coriander yn fân a sleisiwch y brestiau cyw iâr yn ddarnau bach tua 1cm o drwch.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell fawr. Ychwanegwch y pâst a choginiwch am 1-2 funud ac yna ychwanegwch y cyw iâr. Trowch y cyw iâr nes bydd wedi'i goginio drwodd.
4.	Ychwanegwch y mangetout a'i droi am 2 funud.
5.	Ychwanegwch groen y leim a'r llaeth cnau coco. Mudferwch am 10-15 munud nes

	bydd y saws yn dechrau tewhau.
6.	Ychwanegwch y coriander a'r sudd leim at y saws a throi i'w gyfuno cyn ei weini.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda reis gwyn a brocoli**Babanod 7-12 mis oed**

Maint dogn arferol: tua 60g o gyri gyda 30-40g o reis wedi'i goginio a 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyri wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis gwyn wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwyd neu briwiwch y cyri wedi'i goginio gyda reis gwyn wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.

Peli cig twrci**Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf**

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, soia, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g

Amser paratoi: 20 munud **Amser coginio:** 1 awr

Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Peli cig		
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Pupryn gwyrdd, heb hadau	60g (½ bach)	220g (1 ½ canolig ei faint)
Briwgig twrci	260g	1.1kg
Wy	25g (½ wy)	100g (2 wy)
Briwsion bara gwyn	15g (½ tafell)	60g (2 dafell fawr)
Persli wedi'i sychu	2g (2 llwy de)	8g (8 llwy de)
Saws tomato		
Winwnsyn, wedi'i blicio	50g (1 bach)	200g (4 bach)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Olew llysiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Blawd plaen	15g (1 llwy fwrdd wastad)	60g (3 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)

Dull

1. I wneud y peli cig, deisiwch y winwns, garlleg a phupryn gwyrdd yn fân.
2. Rhowch y briwgig twrci mewn powlen fawr. Curwch yr wy a'i ychwanegu at y briwgig gyda chynhwysion eraill y peli cig a chymysgwch yn dda gyda'ch dwylo.
3. Rholiwch yn beli (maint peli golff) gyda blawd ar eich dwylo a'u rhoi i un ochr.
4. I wneud y saws, torrwyd weddill y winwns a garlleg.

5.	Cynheswch yr olew mewn padell, ychwanegwch y winwns a garleg a'i goginio am 3-4 munud.
6.	Ychwanegwch y blawd, gan droi i'w gyfuno'n dda. Coginiwch am rai munudau eto.
7.	Ychwanegwch y tomatos tun a mudferwch am 15-20 munud.
8.	Cynheswch y popty i 200°C/400°F/marc nwy 6.
9.	Yn y cyfamser, cynheswch badell fawr a choginiwch y peli cig fesul tipyn nes byddant yn euraidd. Trefnwch y rhain ar waelod dysgl y gellir ei rhoi yn y popty.
10.	Pan fydd yr holl beli cig wedi cael eu coginio, gorchuddiwch y peli cig gyda'r saws tomato.
11.	Pobwch yn y popty am 30 munud neu nes bydd y peli cig wedi coginio drwodd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda spaghetti gwyn

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 65g o beli cig a saws gyda 30-40g o spaghetti/pasta

Addasiadau i'r rysâit: defnyddiwch siapiau pasta bach yn lle spaghetti ar gyfer plant bach.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: Sleisiwch y peli cig wedi'u coginio a'u gweini fel bwyd bys a bawd gyda'r pasta a saws wedi'i stwnsio.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: Sleisiwch y peli cig wedi'u coginio a'u gweini fel bwyd bys a bawd gyda'r pasta a saws wedi'i dorri neu ei friwio

Cinio: prif gyrsiau llysieuol
Stiw tatws melys a ffa Affricanaidd

Rysáit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle pasta pob gyda ffa a selsig llysieuol
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgnau*
Math o rysáit: Prif bryd llysieuol
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 160g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 25 munud
Rysáit wedi'i haddasu o: First Steps Nutrition Trust, Eating well recipe book: Simple cost-effective ideas for the whole family

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Puprynnau coch, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Taten felys	150g	600g
Ffa gwyrdd	50g	200g
Persli ffres	5g (2-3 sbrigyn)	20g (1 swp bach)
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x tun 400g)
Ffa coch tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	250g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	1kg (4 x tun 400g, wedi'u draenio)
Menyn pysgnau	30g	120g
Powdwr tsili	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Dŵr	150ml	600ml

Dull	
1.	Torrwch y winwns, puprynnau a thatws melys. Tacluswch y ffa a'u torri yn eu hanner. Torrwch y persli yn fras.
2.	Cynheswch yr olew mewn padell. Ychwanegwch y winwns a'i goginio am 3-4 munud.
3.	Ychwanegwch weddill y cynhwysion (heblaw'r persli), dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am tua 20 munud nes bydd y llysiau wedi'u coginio. Ychwanegwch y persli a throi i'w gyfuno cyn gweini.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda thafell o fara gwenith cyflawn a sbred
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogrn arferol: tua 60g o stiwr
Addasiadau i'r rysáit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y stiwr neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bysedd tost neu fara.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y stiwr nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bysedd tost neu fara.

Balti planhigyn wy a ffa cymysg

Rysáit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle cyri tofú Thai, neu bryd ffa llysieuol arall.
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys mwstard, gwenith (glwten)*
Math o rysáit: Prif bryd llysieuol
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 30 munud
Rysáit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwysyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Planhigyn wy	125g (½ canolig ei faint)	500g (2 ganolig ei faint)
Olew llysiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Powdwr cyri	18g (2 lwy fwrdd)	72g (8 llwy fwrdd)
Stwnsh garlleg	6g (1 llwy de)	24g (4 llwy de)
Stwnsh tomato	30g (2 lwy fwrdd)	120g (8 llwy fwrdd)
Blawd plaen	25g (1 llwy fwrdd)	100g (4 llwy fwrdd)
Dŵr berw	100ml	400ml
Syltanas	25g (1 llwy fwrdd)	100g (4 llwy fwrdd)
Ffa cymysg tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	250g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	1kg (4 x tun 400g, wedi'u draenio)

Dull	
1.	Torrwch y winwysyn a'r planhigyn wy.
2.	Cynheswch yr olew mewn padell.
3.	Ychwanegwch y winwysyn a'i goginio am 3-4 munud.
4.	Ychwanegwch y planhigyn wy a choginiwch am 2-3 munud.
5.	Ychwanegwch y powdwr cyri a'r garlleg a stwnsh tomato a choginiwch am 1-2 munud arall.
6.	Ychwanegwch y blawd a throi i'w gyfuno nes bydd y llysiau wedi'u gorchuddio.
7.	Ychwanegwch y dŵr, syltanas a ffa, dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am 10-15 munud neu nes bydd yr holl llysiau a ffa wedi coginio.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda thua 90g o reis gwyn neu frown wedi'i goginio
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogrn arferol: tua 60g o balti, gyda 30-40g o reis wedi'i goginio.
Addasiadau i'r rysáit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y balti neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiau.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y balti gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llysiau.

Quorn™ barbeciw

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys haidd (glwten), wy, mwstard*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 90g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 30 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Puprynnau, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Darnau Quorn™	200g	800g
Tomatos tun wedi'u torri	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Powdwr mwstard	1g (¼ llwy de)	4g (1 llwy de)
Powdwr tsili	1g (¼ llwy de)	4g (1 llwy de)
Sinsir mâl	1g (¼ llwy de)	4g (1 llwy de)
Finegr brag	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
India-corn wedi'i rewi	35g	140g
Blawd corn	1g (¼ llwy de)	4g (1 llwy de)

Dull	
1.	Torrwch y winwnsyn, garlleg a phuprynnau.
2.	Cynheswch yr olew llysiâu mewn sosban.
3.	Ychwanegwch y winwns, garlleg a phuprynnau a'u coginio am 3-4 munud nes byddant yn dechrau meddal.
4.	Ychwanegwch y Quorn™ a'i goginio am ychydig funudau.
5.	Ychwanegwch y tomatos tun, powdwr mwstard, powdwr tsili, sinsir a finegr. Mudferwch am 20 munud.
6.	Ychwanegwch yr india-corn a'i dewhau gyda blawd corn a dŵr os bydd angen. Coginiwch am 5 munud arall neu nes bydd yr holl lysiau a'r Quorn™ wedi'u coginio drwodd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thatws newydd a llysiâu rhost.
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogrn arferol: 45g o ddarnau soia a saws, ynghyd â 30-40g o datws newydd a 25g o lysiau.
Addasiadau i'r rysâit: rhowch ddarnau soia yn lle'r Quorn™ ar gyfer babanod dan 12 mis oed.
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y soia wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda thatws newydd wedi'u coginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda llysiâu rhost fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y soia wedi'i goginio gyda thatws newydd wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda llysiâu rhost fel bwyd bys a bawd.

Stroganoff ffa a madarch

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, mwstard, sylffidau, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 130g
Amser paratoi: 15 munud
Amser coginio: 20 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscott Day Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	75g (½ canolig ei faint)	300g (2 ganolig ei faint)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	20g (4 ewin)
Madarch	160g	640g
Gercin	15g	60g
Persli ffres	2g (2-3 sbrigyn)	8g (8-10 sbrigyn)
Olew llysiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Pys	50g	200g
Paprica	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Blawd gwenith cyflawn	35g (2 lwy fwrdd wastad)	140g
Stwnsh tomato	30g (2 lwy fwrdd)	120g
Ffa cannellini tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	240g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	960g (4 x tun 400g, wedi'u draenio)
Iogwrt llaeth cyflawn plaen	75g (2 lwy fwrdd)	300g

Dull	
1.	Torrwch y winwnsyn, garleg, madarch a gercin. Torrwch y persli yn fras.
2.	Cynheswch yr olew mewn padell. Ychwanegwch y winwns a'r garleg a choginiwch am 3-4 munud nes bydd yn feddal.
3.	Ychwanegwch y madarch a choginiwch am 2-3 munud.
4.	Ychwanegwch y paprica, blawd a stwnsh tomato, gan orchuddio'r holl lysiau, a choginiwch am 2 funud.
5.	Yna, ychwanegwch y ffa, gyrcinau a iogwrt a'u cyfuno'n dda er mwyn gwneud y saws. Mudferwch am 5 munud.
6.	Ychwanegwch y persli wedi'i dorri a'i droi i'w gyfuno cyn ei weini.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda reis gwyn neu frown
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 60g o stroganoff gyda 30-40g o reis a 25g o lysiau
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y stroganoff wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis gwyn nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda phys 'sugar snap' wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y stroganoff wedi'i goginio gyda reis gwyn nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda phys 'sugar snap' wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Risotto ffa a phys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys seleri, wy, llaeth, gwenith soia (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 180g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 30 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Scribbles Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Persli ffres	5g (2-3 sbrigyn)	20g (1 swp)
Ciwb stoc llysiau, sy'n cynnwys llai o halen	½ ciwb stoc	2 giwb stoc
Dŵr berw	300ml	1.2l
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Pys wedi'u rhewi	200g	800g
Ffa soia	200g	800g
Reis gwyn	145g	580g

Dull	
1.	Deisiwch y winwns a'r garleg a thorrwch y persli yn fân.
2.	Toddwch y ciwb stoc yn y dŵr berw.
3.	Yn y cyfamser, cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns. Coginiwch am 1 -2 funud.
4.	Ychwanegwch y pys, ffa soia a reis a'i droi i'w gyfuno. Ychwanegwch y stoc nes bydd y reis a'r llysiau wedi'u gorchuddio a throwch y cyfan i'w gyfuno. Gadewch iddo fudferwi nes bydd y rhan fwyaf o'r stoc wedi'i amsugno.
5.	Profwch a yw'r reis wedi'i goginio. Os nad ydyw, ychwanegwch fwy o ddŵr a pharhewch i'w fudferwi nes bydd wedi coginio.
6.	Ysgeintiwch y persli drosto.

Awgrym ar gyfer gweini: Defnyddiwch lysiau tymhorol gwahanol
<p>Babanod 7-12 mis oed Maint dogn arferol: tua 100g o risotto gyda 25g o lysiau Addasiadau i'r rysâit: coginiwch heb y ciwb stoc wrth weini i fabanod dan 12 mis oed Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y risotto wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffyn puprynnau coch fel bwyd bys a bawd. Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y risotto wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffyn puprynnau coch fel bwyd bys a bawd.</p>

Pei ffa a llysiau

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 210g
Amser paratoi: 45 munud
Amser coginio: 30 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Acorn Grove Nursery, Children's Food Trust Autumn/Winter menu and recipes for early years settings

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws blodiog gwyn, wedi'u plicio	450g	1.8kg
Sbred olew llysiau	5g	20g
Llaeth hanner sgim	15ml	60ml
Winwnsyn, wedi'i blicio	30g (½ bach)	120g (2 fach)
Moron, wedi'u plicio	30g (1 bach)	120g (1 mawr)
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	30ml (2 lwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Stwnsh tomato	15g (1 llwy fwrdd)	60g (4 llwy fwrdd)
Dŵr	150ml	600ml
Perlysiai cymysg wedi'u sychu,	1g (1 llwy de)	4g (4 llwy de)
Ffa coch tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	240g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	960g (4 x tun 400g, wedi'i ddraenio)

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 180°C/350°C/marc nwy 4.
2.	Torrwch y tatws yn giwbiau 2cm. Berwch mewn dŵr am 15 munud neu nes byddant yn feddal.
3.	Draeniwch y tatws a'u stwnsio gyda'r sbred olew llysiau a llaeth nes byddwch wedi creu ansawdd llyfn.
4.	Torrwch y winwns a moron. Cynheswch yr olew mewn sosban fawr ac ychwanegwch y winwns. Coginiwch am 5 munud neu nes bydd yn feddal.
5.	Ychwanegwch y moron, tomatos tun, stwnsh tomatos, dŵr, perlysiai cymysg a ffa coch. Dewch ag ef i'r berw
6.	Arllwyswch y cymysgedd mewn dysgl fawr y gellir ei rhoi yn y popty a rhowch y tatws stwnsh ar ei ben. Pobwch yn y popty am 30 munud neu nes ei fod yn chwilboeth drwodd

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda bresych coch a ffa dringo.
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 100g o bei, ynghyd â 25g o ffa dringo fel bwyd bys a bawd.
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y pei wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffa dringo fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y pei wedi'i goginio gyda thatws

newydd wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa dringo fel bwyd bys a bawd.

Pasta gwenith cyflawn pob gyda ffa a selsig llysieuol

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, soia, sylffidau, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 240g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 20 munud
Ryâit wedi'i haddasu gan y Children's Food Trust o rysâit a gyflwynwyd

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Moron, wedi'u plicio	80g (1 canolig ei faint)	320g (4 canolig ei faint)
Pasta gwenith cyflawn	200g	800g
Olew llysiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Selsig llysieuol	150g (2 ½ selsig)	600g (10 selsig)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x tun 400g)
Ffa coch tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	130g (½ x tun 400g, wedi'i ddraenio)	520g (2 x tun 400g wedi'u draenio)
Pys wedi'u rhewi	100g	400g

Dull	
1.	Torrwch y winwns, y garleg a'r moron yn fân.
2.	Coginiwch y pasta gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd, yna draeniwch ef.
3.	Yn y cyfamser, cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns, garleg a moron. Coginiwch am 1-2 munud nes byddant yn dechrau meddal.
4.	Ychwanegwch y selsig, tomatos wedi'u torri, ffa wedi'u draenio a phys at y badell a'i droi i'w gyfuno. Dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am 15 munud neu nes bydd y selsig a llysiau wedi coginio.
5.	Trowch y pasta i'w gyfuno'n dda.

Awgrym ar gyfer gweini: Defnyddiwch datws yn lle'r pasta i wneud hotpot
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogrn arferol: tua 100g o basta pob gyda 25g o lysiau.
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y pasta pob wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y pasta pob wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.

Goulash ffa gwynion

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys sylffidau*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 160g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 35 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: The Peterborough Nursery School

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwysyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Pupryn gwyrdd, heb hadau ac wedi'i ddeisio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Madarch	40g (4 canolig ei maint)	160g (8 fawr)
Moron, wedi'u plicio	40g (½ ganolig ei maint)	160g (2 ganolig ei maint)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Ffa gwynion tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	240g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	960g (4 x tun 400g wedi'u draenio)
Paprica	9g (1 llwy fwrdd)	36g (4 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	400g (1 x tun 400g)	1.6kg (4 x tun 400g)
Dŵr	150ml	600ml

Dull	
1.	Torrwch y llysiau a'r garlleg.
2.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwys. Coginiwch am ychydig funudau.
3.	Ychwanegwch y puprynnau, madarch, moron, garlleg, ffa, paprica, tomatos tun a dŵr a throwch i gyfuno'r cyfan. Gorchuddiwch a mudferwch am 30 munud.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda reis brown a ffa gwyrdd
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 60g o goulash gyda 30-40g o reis brown a 25g o ffa gwyrdd
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y goulash wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis brown wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwn neu briwiwch y goulash wedi'i goginio gyda reis brown wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

Channa aloo

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle tagine ffa cymysg neu goulash ffa.
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys sylffidau*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 90g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 25 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: First Steps Nutrition Trust, Eating well: vegan infants and under 5's

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	75g (1 bach)	300g (2 ganolig ei faint)
Tatws, wedi'u plicio	100g	400g
Olew llysiâu	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Powdwr tsili	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Cwmin mâl	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Stwnsh garlleg	5g (1 llwy de)	20g (4 llwy de)
Stwnsh tomato	30g (2 lwy fwrdd)	120g (8 llwy fwrdd)
Ffacbys tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	240g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	960g (4 x tun 400g wedi'u draenio)

Dull	
1.	Torrwch y winwns a'r tatws.
2.	Berwch y tatws nes byddant yn feddal, ac yna eu draenio.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell, ychwanegwch y winwns, sbeisys a stwnsh garlleg a'i goginio am 3-4 munud.
4.	Ychwanegwch y stwnsh tomato, ffacbys a thatws a'i droi i'w gyfuno. Mudferwch am 5 munud nes bydd wedi coginio drwyddo.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda reis pilau a Masoor dhal
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogrn arferol: tua 60g o channa aloo, gyda 30-40g o reis a 40g o dhal.
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y channa aloo neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y channa aloo gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol.

Cacennau caws a madarch

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, laeth, soia, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 110g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 45 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws, wedi'u plicio	150g	600g
Cennin	60g (½ bach)	320g (2 fach)
Madarch	50g	200g
Cennin syfi ffres	5g (3-5 sbrigyn)	20g (1 swp bach)
Caws Cheddar	75g	300g
Wy	50g (1)	200g (4)
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Blawd plaen	60g (2 lwy fwrdd orlawn)	250g (8 llwy fwrdd orlawn)
Briwsion bara gwenith cyflawn	50g	200g

Dull

1.	Cynheswch y popty i 180°C/350°C/marc nwy 4.
2.	Deisiwch y tatws a'u berwi nes byddant yn feddal. Draeniwch y tatws a'u stwnsio.
3.	Sleisiwch y cennin yn fân a deisiwch y madarch. Torrwch y cennin syfi yn fras.
4.	Gratiwch y caws. Curwch yr wy.
5.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y cennin a'r madarch. Coginiwch nes bydd wedi meddal.
6.	Ychwanegwch y caws, cennin, madarch a chennin syfi at y stwnsh tatws. Cymysgwch y cyfan yn dda.
7.	Rhannwch y cymysgedd yn 10 neu 40, a gwnewch siapau patis (cacennau caws a madarch).
8.	Mewn powlenni ar wahân, rhwch y blawd, y wyau wedi'u curo a'r briwsion bara. Trowch bob cacen bysgod yn ei thro yn y blawd, yr wy ac yna'r briwsion bara.
9.	Rhowch nhw ar hambwrdd pobi a'u pobi yn y popty am 15-20 munud, neu nes bydd y briwsion bara yn frown euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thalpiaiu tatws ac ysbigoglys

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 65g o gacennau caws amadarch gyda 30-40g o dalpiaiu tatws a 25 o ysbigoglys

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cacennau wedi'u coginio neu eu rhoi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda thalpiaiu tatws ac ysbigoglys.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cacennau wedi'u coginio nes

bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda thalpiau tatws ac ysbigoglys.

Pei caws a llysiau

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys seleri, wy, llaeth, sylffidau, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 45 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Moron, wedi'u plicio	80g (1 canolig ei faint)	320g (4 canolig ei faint)
Seleri	25g (1 ffon)	100g (4 ffon)
Caws Cheddar	75g	300g
Ciwb stoc llysiau, sy'n cynnwys llai o halen	3g (½ ciwb)	12g (2 giwb)
Dŵr berw	100ml	400ml
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Sbred olew llysiau	20g	80g
Blawd plaen	25g (1 llwy fwrdd)	100g (4 llwy fwrdd)
Llaeth hanner sgim	40ml	160ml
Pys wedi'u rhewi	40g	160g
Crwst pwff	50g	200g

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 200°C/400°F/marc nwy 6.
2.	Deisiwch y moron a'r seleri. Gratiwch y caws.
3.	Gwnewch y stoc.
4.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y moron a'r seleri a'i goginio am 3-4 munud arall. Rhowch i un ochr.
5.	Paratowch saws gwyn roux: mewn padell arall, toddwch y sbred olew llysiau ar wres isel. Pan fydd wedi toddi, ychwanegwch y blawd gan ei droi a choginiwch ar wres isel am 1–2 funud. Yn raddol, ychwanegwch y llaeth fymryn ar y tro gan ei droi'n barhaus, a dewch â'r saws i'r berw nes bydd wedi tewhau.
6.	Ychwanegwch y caws, moron, seleri, pys a stoc a'i droi'n dda i'w gyfuno. Mudferwch ar wres isel am 5 munud.
7.	Ar arwyneb ag ychydig o flawd arno, rholiwch y crwst.
8.	Arllwyswch y cymysgedd caws a llysiau i ddysgl y gellir ei rhoi yn y popty a rhowch y crwst drosto. Tacluswch yr ymylon. Pobwch yn y popty am 30 munud neu nes bydd y crwst yn euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thatws rhost a llysiau gwyrdd y gwanwyn

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o lenwad pei gyda 30-40g o datws a 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: coginiwch heb y ciwb stoc wrth weini i fabanod dan 12 mis oed, a gweinwch heb y topin crwst

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y llenwad wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda thatws rhost wedi'u sleisio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y llenwad wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda thatws rhost wedi'u sleisio fel bwyd bys a bawd.

Cyri ffacbys ac ysbigoglys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys mwstard, sylffidau*

Math o rysâit: Prif bryd llysieuol

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 130g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 30 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: The Nursery Catering Company

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Tomatos ffres	40g	160g
Olew llysiau	5g (1 llwy de)	20g (2 lwy fwrdd)
Ffacbys tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	240g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	960g (4 x tun 400g wedi'u draenio)
Stwnsh tomato	20g (1 llwy fwrdd)	80g (4 llwy fwrdd)
Tyrmerig mâl	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Powdwr tsili	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Powdwr cyri	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Dŵr tap	150ml	600ml
Ysbigoglys ffres	80g	320g

Dull

1. Torrwrch y winwnsyn a'r tomatos.
2. Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns a'r tomatos a'i goginio am 5 munud.
3. Ychwanegwch y ffacbys, stwnsh tomato, tyrmerig, powdwr tsili, powdwr cyri a dŵr. Dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am 20 munud nes bydd y llysiau'n feddal.
4. Ychwanegwch yr ysbigoglys a'i goginio am 3-4 munud arall.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda reis gwyn neu frown a bara naan

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o gyri gyda 30-40g o reis a 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyri wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis gwyn nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cyri wedi'i goginio gyda reis gwyn nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.

Korma ffacbys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys cnau almon, mwstard, sylffidau*

Math o rysâit: Prif bryd llysieuol

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 140g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 25 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garleg, wedi'i blicio	8g (2 ewin)	32g (8 ewin)
Pâst cyri kormax	40g	160g
Ffacbys tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	240g (1 x tun 400g wedi'i ddraenio)	960g (4 x tun 400g wedi'u draenio)
Llaeth cnau coco, safonol	200ml (½ x tun 400ml)	800ml (2 x dun 400ml)
Pys wedi'u rhewi	150g	600g
Cnau coco wedi'i sychu	10g	40g

Dull

1. Torrwrch y winwns a'r garleg.
2. Cynheswch yr olew mewn padell fawr, ychwanegwch y winwnsyn a'r garleg a choginiwch am ychydig funudau nes byddant yn feddal.
3. Ychwanegwch y past korma a'i goginio am ychydig funudau.
4. Ychwanegwch y ffacbys, llaeth cnau coco, pys wedi'u rhewi a chnau coco wedi'u sychu a dewch ag ef i'r berw. Mudferwch nes bydd y saws wedi tewhau.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda reis brown.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o gyri gyda 30-40g o reis brown a 25g o ffa gwyrdd.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y korma wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis brown wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y korma wedi'i goginio gyda reis brown wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa gwyrdd fel bwyd bys a bawd.

^x Os yw'r lleoliad yn ddi-gnau, darllenwch y cynhwysion yn y past korma i weld a yw'n cynnwys cnau - mae rhai pastau yn cynnwys cnau almon, a gall rhai gynnwys pysgnau.

Hotpot Quorn™ a chennin hufennog

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, llaeth*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogr arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 240g
Amser paratoi: 15 munud
Amser coginio: 25 munud
Rysâit wedi'i haddasu gan y Children's Food Trust

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Cennin	100g	400g
Moron, wedi'u plicio	100g	400g
Tatws, wedi'u plicio	450g	1.8kg
Ffa gwyrdd	50g	200g
Darnau Quorn™	250g	1kg
Olew llysiau	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Dŵr	200ml	800ml
Caws hufen	75g	300g

Dull	
1.	Torrwch y cennin, moron a thatws. Tacluswch a hanerwch y ffa.
2.	Cynheswch yr olew mewn padell fawr. Ychwanegwch y darnau Quorn™ a'i ffrïo am 2 i 3 munud.
3.	Ychwanegwch y cennin, moron, tatws, ffa gwyrdd a dŵr, dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am tua 20 munud nes bydd y llysiau wedi'u coginio.
4.	Diffoddwch y gwres, ychwanegwch y caws hufen gan gymysgu'r cyfan.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda brocoli wedi'i goginio.
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogr arferol: tua 100g o hot pot gyda 25g o frocoli
Addasiadau i'r rysâit: defnyddiwch ddarnau soia neu friwigig soia os byddwch yn gweini i fabanod dan 12 mis oed
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch yr hotpot wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda brocoli fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch yr hotpot wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda brocoli fel bwyd bys a bawd.

Cyri ffa Jamacaidd

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle goulash ffa
Gwybodaeth am alergeddau: Cynnwys mwstard*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 140g
Amser paratoi: 15 munud
Amser coginio: 20 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons Day Nurseries

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws, wedi'u plicio	75g	300g
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Puprynnau coch, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Plantan, wedi'i blicio	50g (½ canolig ei faint)	200g (1 canolig ei faint)
Olew llyisiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Dŵr	100ml	400ml
Powdwr cyri	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Tomatos tun	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Ffa llygatddu	250g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	1kg (4 x tun, wedi'u draenio)
Pys wedi'u rhewi	50g	200g

Dull	
1.	Deisiwch y tatws. Berwch am 10-15 munud mewn dŵr heb halen ynddo nes byddant wedi coginio. Yna draeniwch.
2.	Yn y cyfamser, torrwch y winwns, puprynnau, garleg a phlantan.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns a'r puprynnau a choginio am 5 munud nes bydd wedi meddal.
4.	Ychwanegwch y garleg, dŵr, powdwr cyri, tomatos, ffa a phlantan a'i droi i'w gyfuno.
5.	Dewch ag ef i'r berw ac yna trowch y gwres i lawr a gadewch iddo fudferwi am 10 munud nes bydd wedi tewhau rhywfaint.
6.	Ychwanegwch y pys a'r tatws. Coginiwch yn ysgafn am 5-10 munud arall nes bydd y ffa a'r llyisiau wedi coginio.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda thua 90g o reis brown wedi'i goginio
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 60g gyda 30-40g o reis.
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyri neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda reis wedi'i goginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llyisiau.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwch neu briwiwch y cyri gyda reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bwyd bys a bawd llyisiau.

Mwsaca corbys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, llaeth*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 160g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 40 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Planhigyn wy	130g	520g
Mozzarella	20g	80g
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	20g (2 lwy fwrdd)
Corbys coch wedi'u sychu	60g	240g
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)
Stwnsh tomato	25g (1½ llwy fwrdd)	100g (6½ llwy fwrdd)
Dŵr	150ml	600ml
Sinamon mâl	1.5g (½ llwy de)	2g (2 lwy de)
Perlysiâu cymysg wedi'u sychu	0.5 g (½ llwy de)	2g (2 lwy de)
Caws hufen	50g	200g
Wy	25g (½ wy)	100g (2 wy)
Iogwrt llaeth cyflawn Groegaidd	60g (1½ llwy fwrdd)	240g (5½ llwy fwrdd)

Dull	
1.	Cynheswch y gril i'r gosodiad uchaf.
2.	Torrwch y winwns a'r garleg. Sleisiwch y planhigyn wy a gratiwch y mozzarella.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell fawr ac ychwanegwch y winwns a'r garleg. Coginiwch am 1 -2 funud.
4.	Ychwanegwch y corbys, tomatos tun, stwnsh tomatos, dŵr, sinamon a pherlysiâu. Trowch y cyfan yn dda, a'i fudferwi am 20 munud neu nes bydd y corbys wedi coginio.
5.	Yn y cyfamser, priciwch y planhigyn wy gyda fforc a'i goginio yn y micro-don am 3-5 munud nes bydd yn feddal.
6.	Cymysgwch y caws hufen, yr wy a'riogwrt gyda'i gilydd.
7.	Trosglwyddwch y cymysgedd tomato i ddysgl fawr y gellir ei rhoi yn y popty. Sleisiwch y planhigyn wy a'i drefnu ar ben y cymysgedd. Arllwyswch y cymysgedd iogwrt ac ysgeintiwch gaws wedi'i gratio.
8.	Rhowch y ddysgl dan y gril nes bydd y topin wedi caledu a throï'n euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda bara garleg a salad cymysg

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 100g o fwsaca gyda thua 20g o fysedd tost a 25g o lysiau.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y mwsaca wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bysedd tost a ffyn moron fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y mwsaca wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bysedd tost a ffyn moron fel bwyd bys a bawd.

Cyri corbys, tatws ac ysbigoglys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, mwstard*

Math o rysâit: Prif bryd llysieuol

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 30 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws, wedi'u plicio	200g	800g
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Tomato ffres	80g (1 canolig ei faint)	320g (4 canolig ei faint)
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Powdwr cyri	6g (2 lwy de)	24g (2½ llwy fwrdd)
Corbys coch wedi'u sychu	60g	240g
Llaeth cnau coco, safonol	60ml	240ml
Dŵr	125ml	500ml
Ysbigoglys	50g	200g
Iogwrt llaeth cyflawn plaen	15g (1 llwy de)	60g (1½ llwy fwrdd)

Dull

1. Torrwrch y tatws, winwns, garleg a thomatos.
2. Cynheswch olew llysiâu mewn padell. Ychwanegwch y powdwr cyri a choginiwch am 1-2 funud.
3. Ychwanegwch y winwns a'r garleg a choginiwch 3-4 munud arall i'w meddal.
4. Ychwanegwch y corbys, tatws, tomatos, llaeth cnau coco a dŵr a'i fudferwi nes bydd y tatws a'r corbys wedi coginio.
5. Ychwanegwch yr ysbigoglys a'r iogwrt. Trowch yn dda a choginiwch am 5 munud.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda chwscws

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o gyri gyda 30-40g o gwscws wedi'i goginio a 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyri wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd

bwyd gyda chwscws nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda blodigion brocoli wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cyri wedi'i goginio gyda chwscws nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda blodigion brocoli wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Ratatouille corbys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Dim*

Math o rysâit: Prif bryd llysiuol

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 110g

Amser paratoi: 15 munud

Amser coginio: 35 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: The Peterborough Nursey School and Children's Food Trust Spring/Summer menu and recipes for early years settings

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	30g (½ bach)	120g (2 fach)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	8g (2 ewin)
Madarch	30g (3 canolig ei maint)	120g (6 fawr)
Courgette	50g (½ canolig ei faint)	200g (2 ganolig ei faint)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)
Oregano wedi'i sychu	0.25g (¼ llwy de)	1g (1 llwy de)
Teim wedi'i sychu	0.25g (¼ llwy de)	1g (1 llwy de)
Dŵr	200ml	800ml
Corbys coch wedi'u sychu	60g	240g

Dull

1. Torrwrch y winwns, garleg, madarch a courgette.
2. Rhowch y winwns, garleg, madarch, courgettes, tomatos tun, oregano, teim, corbys a dŵr mewn sosban fawr, dewch ag ef i'r berw ac yna mudferwch nes bydd yr holl lysiau wedi'u coginio (tua 30 munud).

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda phasta.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 70g o ratatouille corbys, gyda 30-40g o basta.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y corbys a llysiu wedi'u coginio neu eu rhoi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda phasta wedi'i goginio fel bwyd bys a bawd, neu stwnsiwch y pasta gyda'r pysgod a'r llysiu.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y corbys a llysiu wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda phasta wedi'i goginio fel bwyd bys a bawd, neu torrwrch y pasta gyda'r pysgod a'r llysiu.

Stiw ffa cymysg a gwreiddlysiau

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys sylffidau*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 130g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 45 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Early Years Catering at Illminster Avenue, Children's Food Trust Autumn/Winter menu and recipes for early years settings

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Pannas, wedi'u plicio	45g (1 bach)	180g (2 fach)
Moron, wedi'u plicio	60g (1 canolig ei faint)	240g (2 ganolig ei faint)
Basil ffres	5g (2-3 sbrigyn)	20g (1 swp bach)
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Stwnsh tomato	8g (1½ llwy fwrdd)	32g (2 lwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Ffa coch tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	60g (½ x tun 200g, wedi'i ddraenio)	240g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)
Ffa gwynion tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	60g (½ x tun 200g, wedi'i ddraenio)	240g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)
Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Dim*
Math o rysait: Pwdin
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 40g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: dim
Rysait wedi'i haddasu o: Children's Food Trust Spring/summer menu and recipes

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
ffrwyth ciwi	100g	200g
Mefus	100g	200g
Mafon	100g	200g
Melon	100g	200g

Dull	
1.	Sleisiwch y ffrwythau.
2.	Trefnwch platiad o ffrwythau.

Awgrym ar gyfer gweini: Gadewch i'r plant dorri rhai o'r ffrwythau meddal.
Babanod 10-12 mis oed
Gweinwch lai o ffrwythau i fabanod 10-12 mis oed (30g).

Salad ffrwythau tymhorol (gwanwyn/haf)

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Dim*
Math o rysait: Pwdin
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 40g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: dim

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
ffrwyth ciwi	80g	160g
Mefus	80g	160g
Mafon	80g	160g
Llus	80g	160g
Melon	80g	160g

Dull	
1.	Sleisiwch y ffrwythau.
2.	Cyfunwch y ffrwythau a'u gweini mewn powlenni.

Awgrym ar gyfer gweini: Defnyddiwch unrhyw gyfuniad o ffrwythau tymhorol lliwgar

Babanod 10-12 mis oed

Gweinwch lai o ffrwythau i fabanod 10-12 mis oed (30g).

Semolina a chompot mwyar duon

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysait: Pwdin

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 125g (85g o semolina, 40g o ffrwythau)

Amser paratoi: 5 munud

Amser coginio: 10 munud

Rysait wedi'i haddasu o: St Pauls Nursery and Children's Centre, Children's Food Trust
Autumn/Winter menu and recipes

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
Mwyar duon	400g	800g
Semolina	50g	100g
Llaeth	750ml	1.5L
Siwgr mân	40g (2 lwy fwrdd)	80g (4 llwy fwrdd)

Dull

1. Rhowch y mwyar duon mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn.
2. Rhowch y semolina a'r llaeth mewn padell fawr a dewch ag ef i'r berw.
3. Ychwanegwch y siwgr a'i droi i'w gyfuno, trowch y gwres i lawr a'i fudferwi, gan ei droi yn barhaus nes bydd y semolina wedi tewhau.
4. Gweinwch y semolina gyda'r compot mwyar duon.

Awgrym ar gyfer gweini: Defnyddiwch ffrwythau tymhorol er mwyn amrywio'r lliw a'r ansawdd

Babanod 10-12 mis oed

Maint dogn arferol: 60g

Addasiadau i'r rysait: paratowch heb siwgr ar gyfer babanod dan 12 mis oed, a gweinwch gyda 25g o sleisys o eirin fel bwyd bys a bawd.

Semolina a rhesins

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysait: Pwdin

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 110g (85g o semolina, 25g o ffrwythau)

Amser paratoi: 5 munud

Amser coginio: 10 munud

Rysait wedi'i haddasu o: St Pauls Nursery and Children's Centre, Children's Food Trust
Autumn/Winter menu and recipes

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
Semolina	50g	100g
Llaeth	750ml	1.5L
Siwgr mân	40g (2 lwy fwrdd)	80g (4 llwy fwrdd)
Rhesins	250g	500g

Dull	
1.	Rhowch y semolina a'r llaeth mewn padell fawr a dewch ag ef i'r berw.
2.	Ychwanegwch y siwgr a'i droi i'w gyfuno; trowch y gwres i lawr a'i fudferwi, gan ei droi yn barhaus nes bydd y semolina wedi tewhau.
3.	Gweinwch y semolina gyda rhesins.

Awgrym ar gyfer gweini: Defnyddiwch ffrwythau tymhorol er mwyn amrywio'r lliw a'r ansawdd
Babanod 10-12 mis oed
Maint dogrn arferol: 60g o semolina a rhesins a 25g o ffrwythau fel bwyd bys a bawd.
Addasiadau i'r rysâit: paratowch heb siwgr ar gyfer babanod dan 12 mis oed, a thorrwch y rhesins cyn eu hychwanegu at y semolina.

Teisen frau a satswmas

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Pwdin
Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 35g o deisen frau a 40g o ffrwythau
Amser paratoi: 10 munud ynghyd ag 20 munud o amser oeri
Amser coginio: 20 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
Sbred olew llysiâu	100g	200g
Siwgr mân	50g	100g
Blawd plaen	200g	400g
Darnau o satswmas	400g	800g

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 190°C/375°F/marc nwy 5.
2.	Curwch y sbred a'r siwgr gyda'i gilydd nes bydd yn llyfn.
3.	Ychwanegwch y blawd a'i droi i'w gyfuno er mwyn cael past llyfn. Trowch y pâst allan ar arwyneb gwaith glân a'i rollo i drwch o 1cm.
4.	Torrwch yn gylchoedd neu fysedd a'u rhoi ar hambwrdd pobi. Rhowch nhw yn yr oergell am 20 munud.
5.	Pobwch am 15–20 munud, neu nes bydd yn lliw brown euraidd. Rhowch i un ochr i oeri ar rac wifren cyn gweini gyda darnau o satswma.

Awgrym ar gyfer gweini: Defnyddiwch ffrwythau tymhorol ffres neu wedi'u rhewi. Defnyddiwch dorwyr cwcis i wneud teisen frau o siapiau gwahanol.
--

Babanod 10-12 mis oed

Dylech osgoi rhoi cacennau a bisgedi i fabanod dan 12 mis oed. Yn hytrach, rhowch bwdinau ffrwythau a chynhyrchion llaeth iddynt, fel ffrwythau gyda iogwrt, semolina neu bwdin reis.

Ar gyfer babanod 10-12 mis, rhowch gynnig ar 30g o ddarnau mandarin wedi'u sleisio.

Bara banana sbeislyd

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle crempogau banana

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, ceirch (glwten), gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Pwdin

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 40g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 15 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons Day Nurseries

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
Banana, heb y croen	200g (1 canolig ei faint)	400g (4 canolig ei faint)
Wy	60g (1 mawr)	120g (2 fawr)
Sbeis cymysg mâl	6g (2 llwy de)	12g (4 llwy de)
Blawd plaen	100g	200g
Powdwr codi	3g (1 llwy fwrdd wastad)	6g (2 llwy de)
Ceirch	50g	100g
Siwgr mân	25g (1 llwy fwrdd)	50g (2 llwy fwrdd)
Echdynnyn fanila	5ml (1 llwy de)	10ml (2 llwy de)

Dull

1. Cynheswch y popty i 190°C/375°F/marc nwy 5. Iwch a leiniwch dun torth.
2. Stwnsiwch y fanana.
3. Ychwanegwch yr wy a'r sbeis cymysg at y fanana a chymysgu'n dda.
4. Rhidyllwch y blawd a'r powdwr codi a'i blygu i mewn i'r cymysgedd banana ac yna ychwanegwch y ceirch, siwgr ac echdynnyn fanila.
5. Arllwyswch y cymysgedd i mewn i'r tun.
6. Pobwch am 15 munud nes bydd wedi coginio drwyddo ac yn gadarn wrth ei gyffwrdd.
7. Oerwch ar rac wifren. Sleisiwch a gweinwch.

Awgrym ar gyfer gweini: torrwch yn sgwariau neu drionglau

Babanod 10-12 mis oed

Dylech osgoi rhoi cacennau a bisgedi i fabanod dan 12 mis oed. Yn hytrach, rhowch bwdinau ffrwythau a chynhyrchion llaeth iddynt, fel ffrwythau gyda iogwrt, semolina neu bwdin reis.

Crymbl ffrwythau'r haf

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, ceirch (glwten), gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Pwdin
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 60g
Amser paratoi: 5 munud
Amser coginio: 5 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Children's Food Trust

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
Mefus	150g	300g
Mafon	150g	300g
Afalau, wedi'u plicio	100g	200g
Siwgr mân	20g	40g
Sbred olew llysiau	50g	100g
Blawd plaen	80g	160g
Blawd gwenith cyflawn	30g	60g
Siwgr brown meddal	50g	100g
Ceirch	20g	40g

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 190°C/375°F/marc nwy 5.
1.	Sleiswch y mefus, golchwch y mafon a sleiswch yr afalau wedi'u plicio.
2.	Cymysgwch y ffrwythau wedi'u paratoi a'u rhoi ar waelod dysgl y gellir ei rhoi yn y popty
3.	Ysgeintiwch gyda'r siwgr mân.
4.	Paratowch y cymysgedd crymbl: rhwbiwch y sbred yn ysgafn i mewn i'r blawd a'r siwgr brown, yna ychwanegwch y ceirch.
5.	Ysgeintiwch y cymysgedd dros y ffrwythau a'i lefelu gan sicrhau bod yr holl ffrwythau wedi'u gorchuddio.
6.	Pobwch yn y popty am 35 munud.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda chwstard
Babanod 10-12 mis oed Gweinwch yr aeron tymhorol cymysg (25g) heb dopin crymbl, gyda chwstard (50g) ar gyfer babanod 10-12 mis oed.

Saws fanila

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth*
Math o rysâit: Pwdin
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 60g
Amser paratoi: 5 munud
Amser coginio: 10 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Eden Foodservice, Children's Food Trust Autumn/Winter menu and recipes

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
Llaeth	500ml	100ml
Blawd corn	25g (1 llwy fwrdd orlawn)	50g (2 lwy fwrdd orlawn)
Echdynnyn fanila	2.5ml (½ llwy de)	5ml (1 llwy de)
Siwgr mân	15g (1 llwy fwrdd wastad)	30g (2 lwy fwrdd wastad)

Dull

1. Cymysgwch ychydig o'r llaeth gyda'r blawd corn er mwyn gwneud past llyfn.
2. Cynheswch weddill y llaeth gyda'r cymysgedd echdynnyn fanila, siwgr a blawd corn ar wres isel nes bydd yn tewhau.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda salad ffrwythau cynnes

Salad ffrwythau'r gaeaf ffres

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Dim*

Math o rysâit: Pwdin

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 40g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 10 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Busy Bees Nursery and Children's Food Trust Autumn/Winter menu and recipes

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
Gellyg, wedi'u plicio a'u creiddio	160g (1 canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Oren ffres, wedi'i blicio	160g (1 canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Sudd oren	100ml	200ml
Sinamon mâl	3g (1 llwy de)	6g (2 lwy de)

Dull

1. Creiddiwch y gellyg a thorrwch yr oren yn ddarnau. Torrwch y ffrwythau.
2. Cynheswch y ffrwythau, y sudd a'r sinamon mewn padell fawr ar wres isel nes bydd y ffrwythau wedi meddalau.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda saws fanila

Babanod 10-12 mis oed

Maint dogn arferol: 30g

Addasiadau i'r rysâit: Gadewch y salad ffrwythau cynnes i oeri, ac yna gweinwch y darnau o ffrwythau fel bwyd bys a bawd.

logwrt a bricyll wedi'u sychu

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, sylffidau*
Math o rysâit: Pwdin
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 85g (60g o iogwrt, 25g o ffrwythau)
Amser paratoi: 5 munud
Amser coginio: dim
Rysâit wedi'i haddasu o: Claire Knight (Childminder), Children's Food Trust Autumn/Winter menu and recipes

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 10	Meintiau – ar gyfer 20
Cartonau iogwrt	600g	120g
Bricyll wedi'u sychu	200g	400g

Dull	
1.	Torrwch y bricyll a'u cyfuno gyda'r iogwrt a'i weini ar unwaith neu gallwch eu gweini ar wahân os byddai'n well gan y plant.

Awgrym ar gyfer gweini: Defnyddiwch amrywiaeth o ffrwythau wedi'u sychu
Babanod 10-12 mis oed Gweinwch ddogn llai i fabanod 10-12 mis oed (50g o iogwrt gyda 10g o fricyll wedi'u sychu wedi'u torri) a gweinwch gyda sleisys o felon fel bwyd bys a bawd.

Te: prif gyrsiau cig/pysgod

Fajitas cyw iâr a phuprynnau coch

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 140g
Amser paratoi: 15 munud
Amser coginio: 15 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Puprynnau coch, heb yr hadau	160g (1 canolig ei faint)	640g (4 canolig ei faint)
Winwnsyn, wedi'i blicio	120g (2 fach)	480g (2 fawr)
paprica	1.5g (½ llwy de)	6g (2 llwy de)
Powdwr tsili	1.5g (½ llwy de)	6g (2 llwy de)
Powdwr garlleg	0.75g (¼ llwy de)	3g (1 llwy de)
Cwmin mâl	1.5g (½ llwy de)	6g (2 llwy de)
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)

Stribedi o frest cyw iâr	250g	1kg
Wrap tortilla	155g (2 ½ wrap)	620g (10 wrap)
Iogwrt llaeth cyflawn plaen	75g (2 lwy fwrdd wastad)	300g (7 llwy fwrdd)

Dull	
1.	Tynnwch yr hadau o'r puprynnau a'u sleisio gyda'r winwns.
2.	Cymysgwch yr holl sbeisys gyda'r olew a gorchuddiwch y llysiau a'r cyw iâr. Rhowch orchudd drosto a gadewch iddo farinadu yn yr oergell am 5 munud.
3.	Ar wres canolig, coginiwch y cymysgedd cyw iâr a llysiau am 10-15 munud nes bydd y cyw iâr wedi'i goginio drwodd a'r llysiau wedi meddal.
4.	Cynheswch y tortillas gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrhydd.
5.	Rhowch y cymysgedd cyw iâr a llysiau yng nghanol tortilla, gyda llwyaid fach o iogwrt a'i rollo'n dynn. Torrwch yn ei hanner.

Awgrym ar gyfer gweini: Rhowch gynnig ar weini gyda guacamole a/neu gaws wedi'i gratio.
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 30g o gyw iâr wedi'i goginio, gyda 25g o stribedi puprynnau wedi'u coginio a 20g o bitta wedi'i sleisio
Addasiadau i'r rysâit: efallai y bydd yn haws i fabanod ddelio gyda sleisys o fara pitta na darnau o wrap tortilla.
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyw iâr wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal, neu sleiswch i'w weini fel bwyd bys a bawd. Gweinwch gyda stribedi o buprynnau wedi'u coginio a stribedi o bitta.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwch neu briwiwch y cyw iâr wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol, neu sleiswch i'w weini fel bwyd bys a bawd. Gweinwch gyda stribedi o buprynnau wedi'u coginio a stribedi o bitta.

Cawl cyw iâr a nwdls

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle cwscws gyda cyw iâr, betys a salad cymysg
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys seleri, wy, llaeth, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 170g
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: 25 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	30g (½ bach)	120g (2 fach)
Moron, wedi'u plicio	50g (½ canolig ei faint)	200g (2 ganolig ei faint)
Brest cyw iâr	200g	800g
Ciwb stoc cyw iâr gyda llai o halen ynddo	3g (½ ciwb)	12g (2 giwb)
Dŵr berw	250ml	1.5L
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)

India-corn wedi'i rewi	75g	300g
Nwdls wy	175g	700g

Dull	
1.	Sleisiwch y winwns a'r moron.
2.	Deisiwch y cyw iâr a gwnewch y stoc.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell. Ychwanegwch y cyw iâr a'i goginio nes bydd yn dechrau brownio.
4.	Ychwanegwch y winwns, moron ac india-corn a choginiwch am 3-4 munud.
5.	Ychwanegwch y stoc a mudferwch am 5 munud
6.	Yn olaf, ychwanegwch y nwdls a mudferwch am 5-10 munud arall nes bydd y cyw iâr, llysiâu a nwdls wedi coginio.

Awgrym ar gyfer gweini: ysgeintiwch shibwns wedi'u torri neu berlysiâu ffres fel coriander.
Babanod 7-12 mis oed Maint dogn arferol: tua 100g o gawl Addasiadau i'r rysâit: gwnewch heb ddefnyddio'r ciwb stoc os byddwch yn gweini i fabanod. Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cawl neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda sribedi o fara neu dost. Gweini i fabanod 10-12 mis oed: rhowch y cawl mewn cymysgydd bwyd nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol, neu torrwch y nwdls yn ddarnau bach. Gweinwch gyda sribedi o fara neu dost.

Cwscws gyda chyw iâr

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 125g (90 o gwscws, 35g o gyw iâr)
Amser paratoi: 10 munud
Amser coginio: dim
Rysâit wedi'i haddasu o: Children's Food Trust

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Cwscws	225g	900g
Dŵr	275ml	1.1L
Brest cyw iâr, wedi'i goginio	170g	680g

Dull	
1.	Gwnewch y cwscws gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd.
2.	Sleisiwch y frest cyw iâr a'i chyfuno â'r cwscws.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda salad cymysg a betys.
--

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 30g o gyw iâr a 30-40g o gwscws, gyda 30g o stribedi betys a chiwcymbr.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cyw iâr wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda chwscws nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda stribedi o fetys wedi'i goginio a ffyn ciwcymbr fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cyw iâr wedi'i goginio gyda chwscws nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda stribedi o fetys wedi'i goginio a ffyn ciwcymbr fel bwyd bys a bawd.

Bara cras ham cartref**Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf**

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 115g

Amser paratoi: 20 munud

Amser coginio: 10 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Let's Get Cooking and used in Medway food and nutrition support programme for childcare settings: Recipe book for early years settings

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Blawd codi (ac ychydig mwy ar gyfer tylino)	50g	200g
Blawd codi gwenith cyflawn	50g	200g
Iogwrt llaeth cyflawn plaen	100g	400g
Ham	100g	400g
Madarch	100g	400g
Mozzarella	40g	200g
Caws Cheddar	40g	200g
Tomatos tun wedi'u torri	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)

Dull

1.	Rhidyllwch y blodiau i mewn i'r fowlen gymysgu. Ychwanegwch y iogwrt a'i droi nes bydd wedi'i gyfuno'n dda.
2.	Trowch y cymysgedd allan ar arwyneb gwaith glân gydag ychydig o flawd arno a'i dylino'n ysgafn nes bydd yn llyfn. Glanhewch yr arwyneb eto a rhoi mwy o flawd arno a rholiwch y cymysgedd i wneud un gwaelod pizza mawr neu sawl un bach. Gadewch iddo orffwys am 5 munud.
3.	Cynheswch y gril i dymheredd canolig i boeth.
4.	Yn y cyfamser, sleisiwch yr ham a'r madarch a gratiwch y caws.
5.	Rhowch badell ffrïo dros wres isel i ganolig. Coginiwch y gwaelod(ion) pizza bara cras nes byddant yn grisb ac yn euraidd ar un ochr, yna dylech eu troi ac ailadrodd y broses. Trosglwyddwch nhw i ddalen pobi.
6.	Taenwch y tomatos dros y gwaelodion bara yna rhowch ham, madarch a chaws arnynt.

7. Rhowch y pizza(s) o dan y gril nes bydd y topin yn boeth a'r caws yn byrlymu.

Awgrym ar gyfer gweini: Gadewch i'r plant wneud y bara cras yn ystod sesiwn y prynhawn.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 100g o fara cras

Addasiadau i'r rysâit: gweinwch heb ham er mwyn cyfyngu ar y cynnwys halen i fabanod.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: torrwyd y bara cras yn stribedi a'u gweini gyda ffyn puprynnau fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwyd y bara cras yn stribedi a'u gweini gyda ffyn puprynnau fel bwyd bys a bawd.

Pâté macrell cartref

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, pysgod*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 60g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: dim

Rysâit wedi'i haddasu o: Nature Trails Day Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Macrell tun mewn dŵr hallt, wedi'i ddraenio	150g (1 x tun 212g, wedi'i ddraenio)	600g (4 x tun 212g wedi'u draenio)
Caws hufen	50g	200g
Llaeth hanner sgim	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (4 llwy fwrdd)
Iogwrt llaeth cyflawn plaen	50g (1 llwy fwrdd orlawn)	200g (4 llwy fwrdd orlawn)
Sudd lemon	20ml (1 llwy fwrdd)	80ml (4 llwy fwrdd)

Dull

1. Defnyddiwch fforc i stwnsio'r pysgod yn fân.

2. Ychwanegwch y caws hufen, llaeth, iogwrt naturiol a sudd lemon at y pysgodyn a stwnsh tatws i wneud past.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda thatws pob a salad

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 40g o bâte.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwyd neu briwiwch y cymysgedd nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol.

Noder: ni ddylid rhoi pâté wedi'i brynu o siop i blant ifanc am resymau diogelwch bwyd.

Kofta cig oen a mintys gyda saws tomato

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, soia, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 95g
Amser paratoi: 20 munud
Amser coginio: 30 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Koftas		
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Mintys ffres	1g (1-2 sbrigyn)	4g (4-6 sbrigyn)
Persli ffres	1g (1-2 sbrigyn)	4g (4-6 sbrigyn)
Wy	25g (½ wy)	100g (2 wy)
Olew llysiâu	5g (1 llwy de)	20g (2 lwy fwrdd)
Cig oen wedi'i friwio	265g	1.1kg
Briwsion bara gwyn	20g	80g
Blawd	10g (½ llwy fwrdd wastad)	40g (2 lwy fwrdd wastad)
Saws tomato		
Winwnsyn, wedi'i blicio	30g (½ bach)	120g (2 fach)
Garlleg, wedi'i blicio	2g (½ ewin)	8g (2 ewin)
Olew llysiâu	5g (1 llwy de)	20g (2 lwy fwrdd)
Blawd plaen	7g (2 lwy de wastad)	28g (1 llwy fwrdd orlawn)
Stwnsh tomato	10g (1 llwy fwrdd wastad)	40g (2 ½ llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	100g (½ tun 200g)	400g (1 x tun 400g)
Oregano wedi'i sychu	0.5 g (½ llwy de)	2g (2 lwy de)

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 190°C/375°F/marc nwy 5.
2.	I wneud y koftas, deisiwch y winwns a'r garlleg a thorrwch y mintys a'r persli yn fras. Curwch yr wy.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns a'r garlleg. Coginiwch am 3-4 munud nes bydd wedi meddal. Rhowch i un ochr a gadael iddo oeri rhywfaint.
4.	Mewn powlen fawr, cyfunwch y cig oen, mintys, persli, briwsion bara a wyau. Yna, ychwanegwch y winwns a'r garlleg.
5.	Gyda blawd ar eich dwylo, siapiwch y cymysgedd yn ffyn cebabs. Rhowch nhw mewn dysgl y gellir ei rhoi yn y popty a'u pobi am 30 munud neu nes byddant wedi coginio drwodd.
6.	Yn y cyfamser, i wneud y saws tomato, torrwch y winwns a'r garlleg.
7.	Cynheswch yr olew mewn padell, ychwanegwch y winwns a'r garlleg a choginiwch am 3-4 munud nes byddant yn feddal.
8.	Ychwanegwch y blawd plaen a'i droi yn dda i'w gyfuno. Coginiwch am 2 funud arall.

9.	Ychwanegwch y stwnsh tomato, y tomatos a'r oregano. Mudferwch am 15-20 munud neu nes bydd y saws wedi tewhau.
Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda bara pitta gwenith cyflawn.	

Babanod 7-12 mis oed**Maint dogn arferol:** tua 75g o koftas gyda 20g o fara pitta**Addasiadau i'r rysâit:** dim**Gweini i fabanod 7-9 mis oed:** stwnsiwch y koftas neu eu rhoi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda sribedi o fara pitta fel bwyd bys a bawd.**Gweini i fabanod 10-12 mis oed:** torrwrch neu briwiwch y koftas a'r saws nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda sribedi o fara pitta fel bwyd bys a bawd.**Kheema cig oen**

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle tagine cig oen
Gwybodaeth am alergeddau: Cynnwys mwstard*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 130g
Amser paratoi: 10 munud, Amser coginio: 55 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Bright Horizons Day Nurseries Day Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	75g (½ canolig ei faint)	300g (2 ganolig ei faint)
Garlleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Tatws, wedi'u plicio	75g	300g
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Powdwr cyri	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Briwgig cig oen	275g	1.1kg
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)
Pys wedi'u rhewi	125g	500g

Dull

1.	Cynheswch y popty i 200°C/400°F/marc nwy 6.
2.	Deisiwch y winwns, garlleg a thatws.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y winwns a'r garlleg. Coginiwch am 3-4 munud nes bydd yn dechrau meddal.
4.	Ychwanegwch y powdwr cyri a choginiwch am 1-2 funud.
5.	Ychwanegwch y briwgig a'i frownio'n dda.
6.	Ychwanegwch y tatws a'r tomatos a dewch ag ef i'r berw.
7.	Arllwyswch i mewn i ddysgl y gellir ei rhoi yn y popty a'i bobi yn y popty am 30-40 munud nes bydd y tatws wedi'u coginio drwodd. Dylech ei wirio'n rheolaidd, gan ychwanegu dŵr os bydd angen. Ychwanegwch y pys wedi'u rhewi 5 munud cyn diwedd yr amser coginio.

Awgrym ar gyfer gweini: gyda bara naan

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 60g o kheema gyda 20g o fara naan.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y kheema neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda sribedi o fara naan.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwrich y kheema nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda sribedi o fara naan.

Wrap cyw iâr lemon gyda letys a chiwcymbr

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd cig

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 120g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 20 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Brest cyw iâr	250g	1kg
Sudd a chroen lemon	½ lemon	2 lemon
Letys	50g	200g
Ciwcymbr	150g	600g
Wraps tortilla	160g (5)	640g (20)
Caws hufen	40g	160g

Dull

1. Cynheswch y popty i 200°C/400°F/marc nwy 6.
2. Sleisiwch y cyw iâr yn sribedi.
3. Cymysgwch gyda'r sudd a chroen lemon a'i arllwys dros y cyw iâr wedi'i sleisio i'w farinadu.
4. Rhowch y ffledi cyw iâr ar hambwrdd pobi a'i rostio yn y popty am 10-15 munud neu nes bydd wedi coginio drwodd.
5. Yn y cyfamser, sleisiwch y letys a'r chiwcymbr.
6. Taenwch y caws hufen ar y tortillas ac ychwanegwch y letys a chiwcymbr wedi'u sleisio.
7. Rhowch y cyw iâr ar ben y wrap.
8. Rholiwch y tortilla a'i dorri'n haneri.

Awgrym ar gyfer gweini: Rhowch y cynhwysion wedi'u paratoi i'r plant wneud eu wraps eu hunain.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 80g (yn cynnwys sribedi cyw iâr a bara pitta)

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: gweinwch y sribedi o gyw iâr lemon fel bwyd bys a bawd,

neu gallwch eu stwnsio nes byddant yn llyfn, a gweini gyda stribedi o fara pitta a ffyn ciwcymbr.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: gweinwch y stribedi o gyw iâr lemon fel bwyd bys a bawd, neu gallwch eu torri/briwio nes byddant wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol, a'i weini gyda stribedi o fara pitta a ffyn ciwcymbr.

Pasta pob pys, ham a madarch

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd cig
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 210g
Amser paratoi: 15 munud
Amser coginio: 40 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Pasta gwyn	210g	840g
Madarch	75g	300g
Winwnsyn, wedi'i blicio	75g (½ canolig ei faint)	300g (2 ganolig ei faint)
Garlleg, wedi'i blicio	8g (2 ewin)	32g (8 ewin)
Basil ffres	5g (3-4 sbrigyn)	20g (1 swp bach)
Ham	175g	700g
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (4 x tun 400g)
Stwnsh tomato	12g (1 llwy fwrdd)	50g (4 llwy fwrdd)
Pys wedi'u rhewi	50g	200g

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 180°C/350°C/marc nwy 4.
2.	Coginiwch y pasta gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd. Pan fydd wedi coginio, draeniwch a'i roi mewn dysgl y gellir ei rhoi yn y popty gan sicrhau bod y pasta ond yn llenwi hanner y ddysgl.
3.	Torrwch y madarch, winwns, garlleg, basil a ham.
4.	Cynheswch yr olew ac ychwanegwch y winwns a'r madarch nes byddant wedi meddalau.
5.	Ychwanegwch y tomatos wedi'u torri, stwnsh tomato a phys, trowch y cyfan a'i fudferwi am 15 munud.
6.	Ychwanegwch y basil a'r ham wedi'i ddeisio.
7.	Arllwyswch y saws dros y pasta a chymysgwch yn dda.
8.	Os bydd y cymysgedd pasta braidd yn stiff, ychwanegwch ddiferyn o ddŵr a'i roi yn y popty am 15 i 20 munud.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda salad cymysg
Babanod 7-12 mis oed
Maint dogn arferol: tua 100g o basta pob, wedi'i weini gyda 30g o flodigion brocoli
Addasiadau i'r rysâit: dim
Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y pasta pob wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.
Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y pasta pob wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda blodigion brocoli fel bwyd bys a bawd.

Pasta eog a brocoli

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod, llaeth, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd pysgod
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 220g
Amser paratoi: 20 munud
Amser coginio: 20 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Pollyanna's Nursery, Children's Food Trust Spring/Summer menu and recipes

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Eog ffres neu dun, wedi'i ddraenio	200g ffres or 1 x tun 212g, wedi'i ddraenio	800g ffres or 2 x dun 418g, wedi'u draenio
Winwnsyn, wedi'i blicio	30g (½ bach)	120g (2 fach)
Brocoli	75g	300g
Caws Cheddar	30g	120g
Pasta gwyn	210g	840g
Sbred olew llysiau	15g	60g
Blawd plaen	15g (3 lwy de)	60g (2 lwy fwrdd orlawn)
Llaeth hanner sgim	300ml	1.2L
Persli wedi'i sychu	0.5 g (½ llwy de)	2g (2 lwy de)

Dull	
1.	Coginiwch yr eog ffres neu paratowch yr eog tun drwy dynnu'r holl esgyrn a chroen.
2.	Torrwrch y winwns yn fân a thorrwrch y brocoli yn flodigion bach. Gratiwch y caws.
3.	Berwch y pasta gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y pecyn, yna ei ddraenio.
4.	Coginiwch y brocoli a'r winwns mewn dŵr berw nes byddant yn feddal, am tua 10 munud.
5.	Gwnewch y saws caws: cynheswch y sbred olew llysiau mewn sosban ac ychwanegwch y blawd gan ei droi i'w gyfuno. Tynnwch o'r gwres ac ychwanegwch y llaeth yn raddol a'i chwisgio nes bydd yn llyfn. Mudferwch y saws yn ysgafn, gan ei droi'n barhaus nes bydd yn tewhau. Ychwanegwch y caws wedi'i gratio a'i droi nes bydd wedi toddi.
6.	Cyfunwch y saws caws, pasta a brocoli yna plygwch yr eog wedi'i goginio a'i adael i

oeri a'r persli i mewn iddo.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gydag india-corn

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogrn arferol: tua 100g o basta gyda 25g o lysiau

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y pryd pasta wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gydag india-corn fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y pryd pasta wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gydag india-corn fel bwyd bys a bawd.

Salad reis eog a llysiau

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogrn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 190g

Amser paratoi: 5 munud

Amser coginio: 20 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Toadhall Nursery Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Pupryn gwyrdd, heb hadau ac wedi'i ddeisio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Tsili coch, heb hadau	5g (¼ tsili)	20g (1 tsili)
Shibwns	50g (5 winwns)	200g (20 winwns)
Coriander ffres	12g (8-10 sbrigyn)	48g
Basil ffres	12g (8-10 sbrigyn)	48g
Reis gwyn	160g	640g
Pys wedi'u rhewi	75g	300g
India-corn wedi'i rewi	75g	300g
Ffiledi eog	225g	900g
Sudd leim	10ml (½ leim)	40ml

Dull

1. Deisiwch y puprynnau, tsili coch a shibwns. Torrwrch y perlysiâu yn fras.
2. Dewch â phadell o ddŵr i'r berw ac ychwanegwch y reis. Mudferwch am 8 munud yna ychwanegwch y pys a'r india-corn a'i fudferwi am 4 munud arall.
3. Draeniwch y reis, pys ac india-corn a'i olchi dan ddŵr oer. Gadewch iddo oeri.
4. Yn y cyfamser, stemiwch neu pobwch yr eog.
5. Pan fydd wedi oeri, rhowch y reis, pys ac india-corn mewn powlen. Haenwch yr eog ac ychwanegwch yr holl gynhwysion eraill wedi'u deisio, yn cynnwys sudd y leim.

Awgrym ar gyfer gweini: Defnyddiwch berlysiâu tymhorol, gan adael i'r plant eu harogli a'u blasu cyn iddynt gael eu hychwanegu.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 100g o salad reis, wedi'i weini gyda thua 30g o sleisys o afocado.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y salad reis wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda sleisys o afocado fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y salad reis wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda sleisys o afocado fel bwyd bys a bawd.

Pâté sardîns ar dost

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod, llaeth, soia, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 65g (35g o pâté, 25g o dost)

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio/creu: 5 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Nature Trails Day Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Shibwns	10g (1)	40g (4)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	8g (2 ewin)
Ciwcybr	65g	260g
Basil ffres	2g (1-2 sbrigyn)	8g (6-8 sbrigyn)
Sardîns tun, mewn dŵr hallt, wedi'u draenio	80g (1x tun 120g, wedi'i ddraenio)	320g (4 x tun 120g wedi'u draenio)
Sudd lemon	5ml (1 llwy de)	20ml (4 llwy de)
Iogwrt Groegaidd	50g	200g
Caws colfran	25g	100g
Bara gwyn	125g (5 tafell)	500g (20 tafell)

Dull

1. Deisiwch y shibwns, garleg, ciwcybr a basil.
2. Rhowch y sardîns mewn cymysgydd bwyd gyda'r sudd lemon a'i brosesu nes bydd y cymysgedd sardîns yn llyfn.
3. Os bydd angen, draeniwch y iogwrt a/neu'r caws colfran mewn rhidyll yna ei gymysg gyda'r sardîns
4. Plygwch y garleg, ciwcybr a basil.
5. Tostiwrch y bara yna taenwch y pâté arno.

Awgrym ar gyfer gweini: Gadewch i'r plant daenu'r pâté ar y tost eu hunain. Gweinwch gyda thomatos wedi'u grilio.

Babanod 7-12 mis oed**Maint dogn arferol:** tua 35g o bâté, 20g o fysedd tost a 25g o domatos.**Addasiadau i'r rysâit:** dim**Gweini i fabanod 7-9 mis oed:** stwnsiwch y pâté neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal a'i weini gyda bysedd tost a thomatos.**Gweini i fabanod 10-12 mis oed:** torrwrch neu briwiwch y pâté nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bysedd tost a thomatos.**Cacennau pysgod tiwna****Wedi'i gynnwys yn:** Bwydlen y gwanwyn/yr haf**Gwybodaeth am alergeddau:** Yn cynnwys wy, pysgod, soia, gwenith (glwten)***Math o rysâit:** Prif bryd pysgod**Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed:** 145g**Amser paratoi:** 25 munud**Amser coginio/creu:** 30 munud**Rysâit wedi'i haddasu o:** Acorn Grove Nursery, Children's Food Trust Spring/Summer menu and recipes

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Olew llysiâu	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Tatws pob, heb eu crwyn	400g (½ canolig ei maint)	1.6kg (10 canolig ei maint)
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Tiwna tun mewn dŵr ffynnon, wedi'i ddraenio	150g (1¼ x tun 185g, wedi'i ddraenio)	600g (4½ x tun 185g) (wedi'u draenio)
Perlysiâu cymysg wedi'u sychu	1g (1 llwy de)	4g (4 llwy de)
Bara gwenith cyflawn	50g (2 dafell ganolig)	200g (8 tafell ganolig)
Wy	50g (1 canolig ei faint)	200g (4 canolig ei faint)

Dull

1.	Cynheswch y popty i 200°C /400°F/marc nwy 6. Iwrch hambwrdd pobi gan ddefnyddio hanner yr olew.
2.	Torrwrch y tatws a'r winwns. Rhowch y tatws mewn padell, eu gorchuddio â dŵr a'u berwi am 20 munud neu nes byddant yn feddal.
3.	Ychwanegwch y tatws a'u stwnsio nes byddant yn llyfn.
4.	Cynheswch hanner yr olew mewn padell ffrio, ychwanegwch y winwns a'i ffrio am 5 munud neu nes bydd yn feddal.
5.	Cyfunwch y tatws, winwns, tiwna a pherlysiâu mewn powlen fawr.
6.	Gwnewch y bara yn friwsion a churwch yr wy mewn powlen.
7.	Rholiwch y cymysgedd tatws a thiwna yn beli, eu rholio mewn wy a briwsion bara a'u rhoi ar yr hambwrdd pobi wedi'i iro. Pobwch yn y popty am 20-30 munud.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda relish tomato.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 70g o gacennau pysgod, gyda 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y cacennau pysgod nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal, neu sleisiwch nhw i'w gweini fel bwyd bys a bawd. Gweinwch gyda ffyn llyisiau.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y cacennau pysgod nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol, neu sleisiwch nhw i'w gweini fel bwyd bys a bawd. Gweinwch gyda ffyn llyisiau

Tiwna mayonnaise

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys pysgod, wy, llaeth, mwstard*

Math o rysâit: Prif bryd pysgod

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 30g

Amser paratoi: 5 munud

Amser coginio: dim

Rysâit wedi'i haddasu o: The Peterborough Nursery School

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tiwna tun mewn dŵr ffynnon, wedi'i ddraenio	130g (1 x tun 160g, wedi'i ddraenio)	520g (4 x tun 160g wedi'u draenio)
Mayonnaise	15g (1 llwy fwrdd wastad)	60g (4 llwy fwrdd wastad)
logwrt llaeth cyflawn plaen	15g (1 llwy de)	60g (4 llwy de)

Dull

1. Haenwch y tiwna. Ychwanegwch y mayonnaise a'r iogwrt a chymysgwch yn dda.

Awgrym ar gyfer gweini: Gwinwch gyda thaten drwy'i chroen a ffyn ciwcymbr

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 30g o diwna mayonnaise, wedi'i weini gyda 30-40g o datws pob a thua 30g o ffyn moron a chiwcymbr.

Addasiadau i'r rysâit: dim, ond dylid sicrhau mai mayonnaise siop (yn hytrach na mayonnaise cartref) a ddefnyddir ar gyfer babanod dan 12 mis oed, er mwyn sicrhau bod yr wy wedi'u basteureiddio.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y tiwna neu ei roi mewn cymysgydd bwyd gyda'r tatws wedi'u coginio nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffyn llyisiau fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y tiwna a'r tatws wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffyn llyisiau fel bwyd bys a bawd.

Te: prif gyrsiau llysieuol**Gnocchi pob gyda ffa a thomatos**

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf
Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, llaeth, gwenith (glwten)*
Math o rysâit: Prif bryd llysieuol
Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 240g
Amser paratoi: 15 munud
Amser coginio: 45 munud
Rysâit wedi'i haddasu o: Phoenix Day Nursery, Medway food and nutrition support programme for childcare settings: Recipe book for early years settings

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Tatws blodiog, wedi'u plicio	190g	760g
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Puprynnau, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 bupryn)
Mozzarella	75g	300g
Wy	50g (1 wy)	200g (4 wy)
Ysbigoglys ffres	90g	360g
Blawd plaen	50g	200g
Nytmeg mâl neu wedi'i gratio	1.5g (½ llwy de)	6g (2 llwy de)
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Passata	350g	1.4kg
Ffa cannellini tun, wedi'u draenio	240g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	960g (4 x tun 400g wedi'u draenio)

Dull	
1.	Torrwch y tatws. Deisiwch y winwns, garleg a phupur. Gratiwch neu sleisiwch y mozzarella. Curwch yr wy.
2.	Berwch y tatws am 15 munud neu nes byddant yn feddal, ac yna eu draenio.
3.	Yn y cyfamser, berwch yr ysbigoglys am 3-4 munud nes bydd yn feddal. Draeniwch a'i redeg dan ddŵr oer. Pan fydd yn ddigon oer i'w drin, gwasgwch yr holl wlybaniaeth ohono, a'i dorri'n fân.
4.	Stwnsiwch y tatws gan ddefnyddio fforc neu stwnsiwr tatws, nes byddant yn llyfn ac ysgafn.
5.	Cyfunwch y blawd, ysbigoglys wedi'i dorri, stwnsh tatws, nytmeg wedi'i gratio a'r wy.
6.	Rholiwch y cymysgedd yn siapiau selsig tua 1cm mewn diamedr. Torrwch ar eu lletraws yn ddarnau 2.5cm. Rhowch orchudd drostynt a'u rhoi yn yr oergell nes bydd eu hangen.
7.	Cynheswch yr olew mewn padell fawr. Ychwanegwch y winwns a'r puprynnau a choginio am 5 munud nes byddant wedi meddalau. Ychwanegwch y garleg, a'i droi i'w gyfuno a choginio am 1 funud.
8.	Ychwanegwch y passata a'r ffa, dewch ag ef i'r berw yna trowch y gwres i lawr a'i fudferwi am 10-15 munud, gan ei droi'n achlysurol, nes bydd y saws wedi tewhau

	(ychwanegwch ddŵr os bydd yn edrych yn rhy sych).
9.	Tra bydd y saws yn mudferwi, cynheswch y popty i 200°C/400°F/gas mark 6.
10.	Yn y cyfamser, berwch y gnocchi am 3 munud. Draeniwch a'i roi i un ochr.
11.	Cyfunwch y gnocchi a'r saws tomato a'i drosglwyddo i ddysgl bobî fawr. Ysgeintiwch y mozzarella drosto.
12.	Pobwch yn y popty am 5-10 munud, neu nes bydd popeth yn chwilboeth a'r caws wedi toddi a throi'n euraidd.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda bara a sbred a salad bach tymhorol

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 100g o'r gnocchi pob gyda 25g o lysiau

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: Stwnsiwch y gnocchi pob neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffa gwyrdd wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: Torrwch neu briwiwch y gnocchi pob wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffa gwyrdd wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Enchiladas ffa a llysiau

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys llaeth, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd llysieuol

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 145g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 45 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Scribbles Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Puprynnau coch, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Caws Cheddar	50g	200g
Olew llysiau	5ml (1 llwy de)	15ml (1 llwy fwrdd)
Stwnsh tomato	10g (1 llwy fwrdd wastad)	40g (2 lwy fwrdd orlawn)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x dun 400g)
Ffa coch tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	128g (1 x tun 200g, wedi'i ddraenio)	512g (2 x dun 400g wedi'u draenio)
Paprica	1.5g (½ llwy de)	6g (2 lwy de)
Perlysiâu cymysg wedi'u sychu	0.5 g (½ llwy de)	2g (2 lwy de)
Tortillas blawd	165g (2 ½ wrap)	660g (10 wrap)

Dull

1. Cynheswch y popty i 180°C/350°F/marc nwy 4.

2.	Torrwch y winwns a'r puprynnau. Gratiwch y caws.
3.	Cynheswch yr olew mewn padell. Ychwanegwch y winwns a'r puprynnau a'u coginio am 3-4 munud nes byddant wedi meddal.
4.	Ychwanegwch y stwnsh tomato a choginiwch am 2-3 munud.
5.	Ychwanegwch y tomatos a mudferwch am 10-15 munud.
6.	Ychwanegwch y ffa coch a medferwch am 2-3 munud arall.
7.	Cynheswch y tortillas gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrhydd mewn padell ffrïo anludiog wedi'i hiro'n ysgafn am 15 eiliad ar bob ochr.
8.	Taenwch rywffaint o'r saws llysiau a ffa ar bob wrap a'u rholio. Rhewch y cymysgedd mewn dysgl y gellir ei rhoi yn y popty.
9.	Ysgeintiwch gyda'r caws wedi'i gratio a'i bobi yn y popty am 10-20 munud.

Awgrym ar gyfer gweini: Rhewch gynnig ar ei weini gyda guacamole.

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogan arferol: tua 75g o gymysgedd ffa a chaws, gyda 30-40g o datws melys

Addasiadau i'r rysâit: yn lle gwneud enchiladas, gweinwch 75g o'r cymysgedd ffa a chaws i fabanod dan 12 mis oed, gyda thatws melys wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: Stwnsiwch y cymysgedd ffa a chaws neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda'r tatws melys wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: Torrwch neu briwiwch y cymysgedd ffa a chaws nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda'r tatws melys wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Ffa pob 'Billy can' gyda phasta gwenith cyflawn

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen y gwanwyn/yr haf

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys wy, soia, sylffidau, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd llysieuol

Maint dogan arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 240g

Amser paratoi: 5 munud

Amser coginio: 40 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Montagu Community Nursery

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Pupryn gwyrdd, heb hadau ac wedi'i ddeisio	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Tomatos tun wedi'u torri	200g (1 x tun 200g)	800g (2 x tun 400g)
Ffa cymysg tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	250g (1 x tun 400g, wedi'i ddraenio)	1kg (4 x tun 400g)
Selsig llysieuol	200g	800g
Paprica	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Perlysiâu cymysg wedi'u sychu	1g (1 llwy de)	4g (4 llwy de)
Pys wedi'u rhewi	75g	300g
Pasta gwenith cyflawn	200g	800g

Dull	
1.	Cynheswch y popty i 180°C/350°F/marc nwy 4.
2.	Sleisiwch y puprynnau.
3.	Rhowch yr holl gynhwysion, heblaw'r pasta mewn dysgl gaserol, ei orchuddio â ffoil neu gaead a'i goginio am 40 munud.
4.	Yn y cyfamser, coginiwch y pasta gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchedd. Yna draeniwch.
5.	Cyfunwch y pasta gyda'r cymysgedd caserol cyn ei weini.

Awgrym ar gyfer gweini: Ysgeintiwch gaws wedi'i gratio drosto

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogan arferol: tua 100g o'r pryd pasta gyda 25g o lysiau.

Addasiadau i'r rysâit: dim

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: Stwnsiwch y pryd pasta wedi'i goginio neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda ffyn courgette wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: Torrwch neu briwiwch y pryd pasta wedi'i goginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda ffyn courgette wedi'u coginio fel bwyd bys a bawd.

Cawl pwmpen cnau menyn a chorbys

Wedi'i gynnwys yn: Bwydlen yr hydref/gaeaf

Gwybodaeth am alergeddau: Dim*

Math o rysâit: Prif bryd llysieuol

Maint dogan arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 160g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 35 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Elmscot Group

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Pwmpen cnau menyn, wedi'i phlicio	250g	1kg
Puprynnau coch, heb yr hadau	80g (½ canolig ei faint)	320g (2 ganolig ei faint)
Winwysyn, wedi'i blicio	75g (½ canolig ei faint)	300g (2 ganolig ei faint)
Olew llysiâu	15ml (1 llwy fwrdd)	60ml (2 llwy fwrdd)
Oregano wedi'i sychu	1g (1 llwy de)	4g (4 llwy de)
Dŵr	375ml	1.5l
Corbys coch wedi'u sychu	45g	180g

Dull

1. Tynnwch yr hadau o'r bwmpen cnau menyn a'r puprynnau a'u deisio gyda'r winwys.

2. Cynheswch yr olew mewn padell ac ychwanegwch y bwmpen cnau menyn, puprynnau a winwys. Coginio nes bydd yn dechrau meddal.

3. Ychwanegwch yr oregano, dŵr a ffabys. Dewch ag ef i'r berw a'i fudferwi am 30 munud.

4. Rhowch i un ochr i oeri yna ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn.

Awgrym ar gyfer gweini: Gweinwch gyda bara gwenith cyflawn a sbred

Babanod 7-12 mis oed

Maint dogn arferol: tua 100g o gaws, wedi'i weini gyda thua 20g o fara/tost a sbred.

Addasiadau i'r rysâit: dim.

Gweini i fabanod 7-9 mis oed: stwnsiwch y caws neu ei roi mewn cymysgydd bwyd nes bydd yn llyfn gyda lymphiau meddal. Gweinwch gyda bara gwenith cyflawn neu dost a bred fel bwyd bys a bawd.

Gweini i fabanod 10-12 mis oed: torrwrch neu briwiwch y tiwna a'r tatws wedi'u coginio nes bydd wedi cyrraedd yr ansawdd dymunol. Gweinwch gyda bara gwenith cyflawn neu dost a bred fel bwyd bys a bawd.

Samosas pob ffacbys a thatws

Rysâit ychwanegol: rhowch gynnig arni yn lle korma cyw iâr

Gwybodaeth am alergeddau: Yn cynnwys seleri, mwstard, sylffidau, gwenith (glwten)*

Math o rysâit: Prif bryd llysieuol

Maint dogn arferol ar gyfer plant 1-4 oed: 100g

Amser paratoi: 10 munud

Amser coginio: 50 munud

Rysâit wedi'i haddasu o: Georgina Jones a Helen Bawden, gwrrachodwyr plant

Cynhwysion	Meintiau – ar gyfer 5	Meintiau – ar gyfer 20
Winwnsyn, wedi'i blicio	60g (1 bach)	240g (1 mawr)
Garleg, wedi'i blicio	4g (1 ewin)	16g (4 ewin)
Tatws, wedi'u plicio	100g	400g
Sinsir mâl	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Coriander mâl	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Cwmin mâl	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Garam masala	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Powdwr cyri	3g (1 llwy de)	12g (4 llwy de)
Dŵr	25ml	100ml
Sudd lemon	10ml (1 llwy bwdin)	40ml (4 llwy bwdin)
Pys wedi'u rhewi	75g	300g
Ffacbys tun, heb siwgr na halen wedi'u hychwanegu, wedi'u draenio	120g (½ x tun 400g, wedi'i ddraenio)	480g (2 x dun 400g wedi'u draenio)
Crwst ffilo	180g (9 dalen)	720g (36 dalen)
Olew llysiau	30ml (2 lwy fwrdd)	120ml (8 llwy fwrdd)

Dull

1. Cynheswch y popty i 190°C/375°F/marc nwy 5.
